



CYNLLUN BUSNES MENTER TY'N LLAN

EBRILL 2021

Y Cynllun Busnes hwn yw sail y Cynnig Cyfranddaliadau y caiff aelodau'r gymuned a'r cyhoedd yn ehangach eu gwahodd i gymryd rhan ynddo a chefnogi Menter Ty'n Llan.

**YN TY'N LLAN RHAID TYNNU LLWCH
O'I FAR ANNWYL - CYFRANNWCH!**



SAFON
Cyfrannau
Cymunedol



tynllan.cymru

 /tynllan

 @tynllan

Tabl Cynnwys

EIN GWELEDIGAETH, EIN NODAU A'N GWERTHOEDD.....	4
1. CRYNODEB GWEITHREDOL	5
1.1 Y PROSIECT	5
1.2 LLANDWROG, DINAS DINLLE A'R GROESLON	5
1.3 Y SYLFAEN CWSMERIAID POSIBL.....	6
1.4 CYNWYS Y GYMUNED.....	6
1.5 ADNEWYDDU AC AILFODELU.....	6
1.6 COSTAU A CHYLLIDO'R PROSIECT	7
1.7 MARCHNATA.....	8
1.8 Y GYMDEITHAS EI HUN.....	8
1.9 AMSERLEN	8
2. RHAGARWEINIAD.....	9
2.1 CEFNDIR	9
2.2 YR ANGEN AM Y PROSIECT	10
2.3 Y CYD-DESTUN EHANGACH.....	11
2.4 STATWS Y DDOGFEN HON.....	12
3. YNGLŶN Â LLANDWROG	13
3.1 YSTADEGAU AC ASEDAU ALLWEDDOL	13
3.1.1 <i>Poblogaeth</i>	13
3.1.2 <i>Cyflogaeth ac Incwm</i>	13
3.1.3 <i>Mynediad at Wasanaethau</i>	14
3.1.4 <i>Troseddu</i>	14
3.1.5 <i>Y Gymraeg</i>	14
3.1.6 <i>Iechyd a Lles</i>	14
3.1.7 <i>Aelwydydd</i>	14
3.1.8 <i>Cyfleusterau ac Asedau</i>	15
3.2 CYNLLUN CYFEILLIO COVID-19.....	15
3.3 EIN HANES A'N TREFTADAETH.....	15
3.4 TWRISTIAETH A'R SYLFAEN CWSMERIAID POSIBL.....	16
3.5 Y GYSTADLEUAETH	18
4. CYNWYS Y GYMUNED A GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH.....	19
4.1 CYNWYS Y GYMUNED AC YMGYSYLLTU Â RHANDEILIAID	19
4.1.1 <i>Cyfarfodydd Cyhoeddus Zoom</i>	19
4.1.2 <i>Holiadur Cymunedol</i>	19
4.1.3 <i>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Phartneriaid</i>	20
4.2 ENNYN DIDDORDEB YSTOD EHANGACH O BOBL A GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH	20
5. ADNEWYDDU AC AILFODELU.....	23
5.1 CYFLWR CYFREDOL	23
5.2 DATBLYGU AC AILFODELU I DDIWALLU ANGHENION	23
5.3 CYFYNGIADAU COVID-19.....	23
5.4 LLEIHAU EIN HEFFAITH AR YR AMGYLCHEDD.....	24
6. COSTAU AC AMSERLENNI'R PROSIECT	26
6.1 SUT Y BYDDWN YN ARIANNU PRYNU'R ADEILAD.....	26
6.2 COSTAU A CHYLLID CYFFREDINOL Y PROSIECT	26
6.3 CYNLLUN WRTH GEFN.....	28
6.4 AMSERLEN	29
7. Y CYNNIG BUSNES	30
7.1 MODEL BUSNES.....	30

7.2	AMSERIAD	31
7.3	TYBIAETHAU ALLWEDDOL.....	31
7.4	STAFFIO.....	31
7.5	ADLONIAN.....	32
8.	MARCHNATA A HYRWYDDO.....	33
8.1	CYNNYRCH	33
8.2	PRIS.....	33
8.3	LLE	33
8.4	HYRWYDDO.....	33
8.4.1	<i>Hysbysebu</i>	<i>34</i>
8.4.2	<i>Hybu Gwerthiant.....</i>	<i>34</i>
8.4.3	<i>Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau</i>	<i>35</i>
8.4.4	<i>Marchnata Uniongyrchol</i>	<i>35</i>
8.4.5	<i>Cyfathrebu Rhyngweithiol.....</i>	<i>35</i>
8.5	POBL.....	36
8.6	TYSTIOLAETH GORFFOROL.....	36
8.7	PROSES	36
8.8	MARCHNATA'R CYNNIG CYFRANDALIADAU	37
9.	LLYWODRAETHU	38
9.1	PWYLLGOR RHEOLI	38
9.2	GRWPIAU THEMATIG	39
10.	RHEOLI RISG	41
10.1	DADANSODDIAD SWOT	41
10.2	YMATEB I'R RISGIAU	43
10.2.1	<i>Denu busnes</i>	<i>43</i>
10.2.2	<i>Diffyg arian grant ar gyfer adnewyddu a chostau annisgwyl</i>	<i>43</i>
10.2.3	<i>Benthyciadau heb eu talu a chyfranddalwyr yn tynnu'n ôl</i>	<i>43</i>
10.2.4	<i>Nid yw'r busnes yn hyfyw</i>	<i>44</i>
10.2.5	<i>Cyfyngiadau Covid-19.....</i>	<i>44</i>
10.3	DEDDF DIOGELU DATA 2018.....	45
11.	CASGLIADAU	46
12.	RHESTR O ATODIADAU	47

Y Weledigaeth a'r Gwerthoedd

Ein Prif Nod

Cyfoethogi bywydau unigolion a'r gymuned trwy ddod â phobl at ei gilydd

Ein Cyfrwng

Prynu, addasu a chynnal tafarn a bwyty Ty'n Llan fel man cyfarfod sy'n eiddo i'r gymuned

Ein Dulliau Gweithredu

- Darparu lleoliad ac adnodd sy'n hyblyg, deniadol a chroesawgar i bob aelod o'r gymuned
- Darparu bwyd, diod a llety o ansawdd deniadol am bris teg
- Sicrhau bod Ty'n Llan ar gael ac yn hygyrch i ddiwallu anghenion y gymuned
- Hyrwyddo a hwyluso gweithgareddau amrywiol sy'n annog pobl i gymryd rhan
- Creu cyfleoedd i wirfoddoli
- Bod yn gyflogwr teg
- Creu cyfleoedd profiad gwaith a meithrin sgiliau
- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg
- Parchu'r amgylchedd
- Gwarchod treftadaeth bensaernïol Ty'n Llan
- Rhedeg busnes effeithlon a chystadleuol

Ein Gwerthoedd

- Croesawgar – *y lle a'i bobl*
- Cynhwysol - *breichiau agored i bawb yn ddiwahân*
- Gweithgar a thrylwyr – *ym mhopeth a wnawn*
- Diwyd a gonest – *mewn gair a gweithred*
- Teg – *wrth ymwneud â'n gilydd ac â'r byd*

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Y Prosiect

Mae cymuned Llandwrog wedi creu Cymdeithas Budd Cymunedol i brynu a rhedeg tafarn Ty'n Llan sydd wedi ei lleoli yng nghanol y pentref. Mae'r dafarn wedi bod ar gau ers dros dair blynedd ac mae wedi gadael bwlch enfawr ar ei hôl. Nid oes man cyfarfod arall tebyg ar gael i'r gymuned. Oherwydd hynny, bu gostyngiad mewn gweithgarwch a rhyngweithio cymunedol yn ogystal â cholli elfen bwysig o'r economi leol. Mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar Zoom roedd consensws cryf iawn y byddai prynu ac ailddatblygu Ty'n Llan gan y gymuned yn ysgogi gweithgarwch cymunedol, yn helpu i leihau arwahaniad cymdeithasol, yn gwella lles ac yn cynnig manteision economaidd i'r pentref a'r ardal ehangach.

Bellach cafwyd addewidion o fenthyciadau tymor byr o fwy na £350,000 ac mae hynny wedi galluogi'r Gymdeithas i brynu'r adeilad, yn amodol ar gontract. Yn sgil dosbarthu holiadur cafwyd ymateb pwerus a gwybodaeth werthfawr am flaenoriaethau pobl ar gyfer y dafarn a'u parodrwydd i ddarparu cymorth ariannol a chefnogaeth arall. Cyhoeddi'r Cynllun Busnes hwn, ynghyd â'r Cynnig Cyfranddaliadau cysylltiedig, yw'r cam nesaf yn ymgais y Gymdeithas i wireddu gweledigaeth sydd wedi creu cynnwrf trwy'r gymuned gyfan.

Nid ailgwrthodir tafarn segur yn unig yw'r weledigaeth ond creu canolbwynt cymunedol go iawn, gan annog pobl, ni waeth beth fo'u hoed na'u diddordebau, i ddod at ei gilydd drwy ddarparu lle croesawgar i fwyta, yfed a chymdeithasu, a lle pwrpasol i grwpiau cymdeithasol a grwpiau diddordeb arbennig gyfarfod a ffynnu, a hwythau wedi bod heb gyfleuster o'r fath gyhyd.

Bydd cyfleoedd i wirfoddoli, gan arwain at well iechyd a chyfranogiad democrataidd, a chryfhau gwydnwch yn sgil y pandemig. Byddwn yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo defnydd a sicrhau mynediad at y Gymraeg, sy'n nodwedd allweddol o fywyd y gymuned; bydd treftadaeth bensaernïol unigryw'r pentref model hwn o'r 19eg ganrif yn cael ei pharchu a'i gwarchod; a defnyddir dull rhagweithiol o ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â heriau amgylcheddol.

1.2 Llandwrog, Dinas Dinlle a'r Groeslon

Mae gan bentref Llandwrog, gan gynnwys Dinas Dinlle, boblogaeth o tua 460 ac mae wedi ei lleoli yn Ward Groeslon yn etholaeth seneddol Arfon – bum milltir o dref hanesyddol Caernarfon. Yn ward y Groeslon, lle ceir 1707 o drigolion, mae 70% o'r rhai 16-74 oed yn weithgar yn economaidd, ac mae 81% yn siarad Cymraeg. Mae'r Ward o fewn yr 20% uchaf o ardaloedd yng Nghymru lle ceir diffyg mynediad at wasanaethau. Yn Llandwrog ei hun nid oes siopau na gwasanaethau cymunedol ac mae'n rhaid i 35% o bobl mewn gwaith deithio mwy na 10km i gyrraedd eu man cyflogaeth. Anaml y ceir trafndiaeth gyhoeddus i Gaernarfon ac oddi yno, yn enwedig fin nos. Mae mentrau diweddar yn Llandwrog yn sgil y pandemig wedi dod ag ysbryd cymunedol cryf i'r fei ynghyd â pharodrwydd i helpu eraill.

Mae hen bentref Llandwrog yn drawiadol yn bensaernïol ac yn dyddio o'r 1830au ac mae cymeriad Gothig Bictiwresg amlwg i'r adeiladau. Arferai Ty'n Llan fod yn rhan o Ystad Glynllifon, a saif yr adeilad, sy'n sylweddol ei faint, yng nghanol y pentref ac mae iddo arddull glasurol syml. Yn amgylchynu'r hen bentref ceir nifer o ddatblygiadau tai amrywiol a ddatblygwyd yn raddol o'r 1950au ymlaen, gan ddarparu cymysgedd ardderchog o grwpiau oedran sydd wedi helpu i gynnal ysgol y pentref.

1.3 Y Sylfaen Cwsmeriaid Posibl

Prif nod y Gymdeithas yw bod Ty'n Llan yn bodloni anghenion trigolion Llandwrog a'r cyffiniau, ac yn datblygu enw da am ansawdd a lletygarwch a fydd yn ei gwneud yn gyrchfan i drigolion Arfon, Dwyfor a thu hwnt. Mae'n lleoliad sy'n berffaith i wasanaethu'r farchnad dwristiaeth sy'n troi'n bennaf o amgylch atyniadau Eryri, sy'n cynnwys yn eu plith y traeth hynod boblogaidd yn Ninas Dinlle, sy'n filltir o hyd. Mae beicio a cherdded yn boblogaidd yn yr ardal hon ac mae pa mor agos ydym at dref hanesyddol Caernarfon, Parc Cenedlaethol Eryri a phenrhyn Llŷn yn gwneud y pentref yn ganolfan naturiol.

Prin yw'r gystadleuaeth uniongyrchol, gan nad oes tafarn bentref sy'n cynnig bwyd ac ystafelloedd o fewn 8 milltir y gellir cymharu â hi. Mae hyn yn gyfle busnes gwirioneddol i sefydlu arlwy poblogaidd o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd yn llwyr â blaenoriaethau modern defnyddwyr.

1.4 Cynnwys y Gymuned

Yn ogystal ag ymrwymiad aelodau unigol o'r gymuned a'u teuluoedd, cafwyd llythyrau cefnogaeth gan ystod eang o gymdeithasau, busnesau ac unigolion amlwg yn lleol. Mae gwirfoddolwyr wedi cynnig eu gwasanaethau mewn meysydd sy'n amrywio o drefnu digwyddiadau i baentio, ac o arddio i ddylunio bwydlenni.

Mae'r Gymdeithas yn bwriadu rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau, hyfforddiant a phrofiad gwaith a gweithio gydag asiantaethau lleol sy'n weithgar yn y meysydd hyn i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael buddion o'r fath.

1.5 Adnewyddu ac Ailfodelu

Mae angen gwaith helaeth i gyflwyno'r adeilad presennol mewn cyflwr derbyniol. Uchelgais y Gymdeithas, fodd bynnag, yw ailfodelu'r safle, gan ddefnyddio sgiliau pensaer lleol sy'n arbenigo mewn treftadaeth a chadwraeth, i ddarparu'r canlynol:

- Adnewyddu ac ailfodelu'r tu mewn yn llwyr, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf cynhyrchiol o'r gofod
- Estyniad yn y cefn gyda ffenestri'n edrych i'r de tuag at yr Eifl, i'w defnyddio'n bennaf fel man bwyta a chaffi

- Tair ystafell wely *en-suite* gyda chegin fach ar y llawr cyntaf, gyda phedwerydd wedi'i lleoli mewn adeilad allanol ar y llawr gwaelod
- Ystafell amlbwrpas sydd ar gael i'w llogi ar gyfradd economaidd gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat
- Gardd gwrw ddeniadol sy'n croesawu teuluoedd gyda chegin awyr agored
- Ardal barcio newydd wedi ei tharmacio gyda man parcio anabl a phwynt gwefru cerbydau trydan

Bydd y Gymdeithas yn mabwysiadu ac yn monitro cod ecolegol a pholisi amgylcheddol, a bydd y gwaith adnewyddu yn waith carbon sero net a fydd yn defnyddio methodoleg adrodd gydnabyddedig ryngwladol.

1.6 Costau a Chyllido'r Prosiect

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd cyllido'r rhaglen ddatblygu hon yn costio £515,000, yn ychwanegol at gostau'r pryniant.

Gwarantir pryniant yr adeilad a'r costau cysylltiedig – cyfanswm o tua £333,000 - gan addewidion o fenthyciadau tymor byr. Mae'r dogfennau benthycia yn darparu ar gyfer y posibilrwydd, drwy gytundeb, o ymestyn y benthyciadau hyn ac mae'n debygol y bydd benthyciadau tymor hwy, boed hynny ar yr un telerau neu ar delerau eraill, yn elfen bwysig o'r pecyn cyllido tymor hwy.

Y Cynllun Busnes hwn yw sail y Cynnig Cyfranddaliadau y caiff aelodau'r gymuned a'r cyhoedd yn ehangach eu gwahodd i gymryd rhan ynddo a chefnogi Menter Ty'n Llan.

Ein targed o ran cyllid o bob ffynhonnell yw £850,000. Gwyddom y bydd angen codi cyfran sylweddol o'r swm hwn drwy gyllid grant a benthyciadau hirdymor ac rydym yn hyderus bod y cynllun ar gyfer Ty'n Llan yn bodloni meini prawf nifer o raglenni grant sy'n weithredol ar hyn o bryd. Y targed yr ydym yn ei osod fel swm i'w godi'n benodol trwy'r Cynnig Cyfranddaliadau yw £400,000.

Mae cynllun ariannol y busnes yn seiliedig ar wasanaethau a chyfleusterau sy'n ddibynnol ar gyrraedd y targed ariannu cyffredinol. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar incwm o werthu bwyd a diod, llety a llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae trosiant ac elw wedi'u modelu'n fanwl ac maent wedi eu llunio'n gymharol â sefydliadau tebyg yng ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill. Bydd costau staffio'n cael eu rheoli'n dynn wrth i batrwm masnachu clir ymsefydlu. Un o agweddau unigryw'r cynllun yw'r bwriad i benodi Swyddog Datblygu gyda chyllid grant i oruchwylio'r gwaith o gyflawni amcan ehangach y Gymdeithas o sicrhau'r cyfranogiad, datblygu sgiliau a gwirfoddoli, i'r graddau mwyaf posibl.

Mae'r cynllun yn rhagweld elw net yn y flwyddyn gyntaf o £17,032 (yn net o ddibrisiant), gan dyfu i £33,156 yn yr ail flwyddyn a £38,875 yn y drydedd flwyddyn.

1.7 Marchnata

O'r cychwyn cyntaf, bydd y Gymdeithas yn gallu manteisio ar arbenigedd marchnata proffesiynol sylweddol ymhlith yr aelodau. Defnyddir ystod eang o'r cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol, gan gynnwys rhai y telir amdanynt a rhai a geir am ddim, yn uniongyrchol ac yn rhyngweithiol, a chânt eu hanelu at gynulleidfaoedd targed penodol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd negeseuon perthnasol a chredadwy mewn perthynas â'r hyn sydd gan Ty'n Llan i'w gynnig yn dod i sylw darpar ddefnyddwyr yn barhaus, i greu a chadw ymwybyddiaeth ac adeiladu sylfaen cwsmeriaid a chynhyrchu busnes cylchol am flynyddoedd lawer i ddod. Caiff nwyddau wedi'u cynllunio'n benodol eu cynhyrchu i godi arian ac i ledaenu neges 'Ty'n Llan' ymhell ac agos.

1.8 Y Gymdeithas ei Hun

Mae'r gymuned wedi mabwysiadu model Cymdeithas Budd Cymunedol fel yr hyn sy'n cyd-fynd orau â'r ysbryd a roddodd fod i'r fenter. Mabwysiadwyd Rheolau Enghreifftiol a sefydlwyd Pwyllgor Rheoli Cychwynnol ac ynddo bedwar aelod ar ddeg, ynghyd â chwe is-bwyllgor sy'n gyfrifol am wahanol feysydd gweithgarwch. Daw rhywun yn aelod drwy brynu unrhyw nifer o gyfranddaliadau £100 ac mewn Cyfarfodydd Cyffredinol mae gan bob aelod un bleidlais. Gwnaed cais i CThEM am Sicrwydd Ymlaen Llaw ar gyfer y Cynnig Cyfranddaliadau i sicrhau y bydd buddsoddiadau yng Nghyfranddaliadau'r Gymdeithas yn gymwys i gael Rhyddhad Treth Buddsoddiadau Cymdeithasol.

1.9 Amserlen

Bydd y Cynnig Cyfranddaliadau yn cau ar Fehefin 11 2021. Bydd ceisiadau grant, a cheisiadau dylunio a chynllunio yn dilyn, cyn mabwysiadu cynlluniau terfynol, tendro a phenodi contractwyr. Bydd gwaith ar y safle yn cael ei wneud o fis Ionawr 2022 hyd dymor yr haf. Dechreuir agor gam wrth gam ym mis Medi 2022 nes rhoi'r Cynllun Busnes llawn ar waith ym mis Ebrill 2023.

2. Rhagarweiniad

2.1 Cefndir

Cafodd tafarn Ty'n Llan¹ ei rhoi ar werth ar y farchnad agored ym mis Chwefror 2021, gyda phris awgrymedig o £350k. Mae'r adeilad hanesyddol hwn ym mhentref Llandwrog yn adeilad rhestredig Gradd II a adeiladwyd yn y 1830au ac mae wedi bod yn wag ers 2017. Hyd ei chau, tafarn annibynnol oedd hon.

Roedd cymuned Llandwrog wedi bod yn bryderus ers peth amser bod y dafarn wedi cau ei drysau a bod cyflwr yr adeilad hanesyddol hwn yng nghanol y pentref yn dirywio. Bu'r dafarn yn rhan ganolog o fywyd y gymuned ers dros 170 o flynyddoedd ac roedd ei chau'n gadael bwlch enfawr: diffyg man cyfarfod cymdeithasol i'r gymuned leol, gostyngiad mewn gweithgarwch cymunedol, gostyngiad mewn gwirfoddoli a rhwydweithio, a cholli swyddi. Mae llawer o grwpiau cymdeithasol wedi rhoi'r gorau i gyfarfod o ganlyniad i gau'r dafarn.

Ni cheir unrhyw gyfleusterau cymunedol eraill yn y pentref, dim canolfan gymunedol, neuadd na siop ac mae trafndiaeth gyhoeddus yn anfyfych. Cydnabyddir y bydd prynu a datblygu'r adeilad hwn yn ysgogi gweithgarwch cymunedol ac yn helpu i leihau arunigedd cymdeithasol; bydd yn gwella lles ac yn dod â buddion economaidd i gymuned Llandwrog a'r cyffiniau.

Ymunodd 64 o aelwydydd mewn cyfarfod cyhoeddus dros Zoom i ddangos eu cefnogaeth i'r prosiect ac wedi hynny llenwyd holiadur gan 203 o aelwydydd. Mewn cyfarfod cyhoeddus arall ar 9 Mawrth 2021, daeth 58 o aelwydydd i gael diweddariad am ein gweithgareddau codi arian, y cynnydd o ran y pryniant ac i drafod canfyddiadau'r holiadur a'r weledigaeth ar gyfer Ty'n Llan.

Mae pandemig Covid-19 wedi golygu fod nifer o bobl yn teimlo'n ynysig ac yn unig; mae ei effaith wedi amlygu pwysigrwydd cyswllt cymdeithasol, cymuned a phobl. Fel cymuned, mae'r ymgyrch i brynu Ty'n Llan wedi creu llawer o frwdfrydedd, ac wedi creu ymdeimlad o falchder a gobraith at y dyfodol.

Er mwyn codi'r arian i brynu'r adeilad sicrhawyd mwy na £350k mewn addewidion o fenthyciadau dros dro gan bobl yn bell ac agos, gan wneud hynny o fewn 3 diwrnod. Dyma dystiolaeth bellach o'r gefnogaeth ysgubol sydd i'r prosiect hwn.

Ar 10 Mawrth derbyniwyd ein cynnig o £325k, a dechreuom ar ein taith tuag at gyflawni ein gweledigaeth o ddatblygu Ty'n Llan yn fwy na dim ond tafarn.

¹ Câi ei galw hefyd yn The Harp Inn. Yn unol â'n gwerthoedd y bwriad yw cadw'r enw lleol, Ty'n Llan

2.2 Yr Angen am y Prosiect

Prin yw'r cyfleusterau eraill yn Llandwrog a does dim man cyfarfod i ddod â phobl at ei gilydd. Ceir tystiolaeth bod grwpiau cymdeithasol a chymdeithasau wedi dod i ben oherwydd diffyg lle cyfarfod ac mae hyn yn effeithio ar allu'r gymuned i drefnu gweithgareddau, dod â phobl at ei gilydd ac annog grwpiau cymunedol newydd i ffurfio. Mae diffyg lle yn yr ysgol gynradd leol i gynnal gweithgareddau cymunedol gan fod neuadd yr ysgol yn cael ei defnyddio fel ystafell ddosbarth ychwanegol a ffreutur.

Ffurfiwyd Pwyllgor Pentref yn 2018 mewn ymateb i awydd pobl i "ddod â'r gymuned at ei gilydd", ac mae gweithgareddau amrywiol wedi cael eu trefnu (e.e. coeden Nadolig yng nghanol y pentref a digwyddiad i gynnu'r goleuadau, diwrnod amgylcheddol, casglu sbwriel). Mae'r math o weithgareddau y gellir eu cynnal yn gyfyngedig oherwydd nad oes yma fan cyfarfod cymdeithasol: cynhelir pob digwyddiad yn yr awyr agored ac rydym yn llwyr ddibynol ar y tywydd.

Mae ardal Llandwrog yn adnabyddus am fod â nifer uwch na'r cyfartaledd (Gwynedd a Chymru) o bobl hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi'r farn bod angen rhagor o gyfleusterau i gefnogi aelodau'r gymuned, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed ac sydd mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol. Byddai'r datblygiad yn sicrhau cyfleuster sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan ac a fyddai o fudd i unigolion sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig yn eu cartrefi, i bobl sydd wedi ymddeol sy'n chwilio am gyfleoedd i gadw'n egnïol, i drigolion newydd y mae arnynt eisiau cyfle i gwrdd â'u cymdogion ac i ofalwyr nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o gwrdd â phobl.

Mae tafarndai cymunedol wedi bod yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau a fu'n achubiaeth i bobl leol oedd mewn angen yn ystod y pandemig. Mae tafarndai cymunedol yn aml yn fwy na dim ond tafarn, maent, yn anad dim arall, yn effro i anghenion y gymuned. Y cysylltiad arbennig hwn â'r gymuned yw'r hyn sy'n gwneud tafarndai cymunedol yn asedau mor werthfawr ac unigryw – a'r hyn sydd hefyd yn rhoi mwy o wydnwch ariannol iddynt.

Mae adroddiad gan CAMRA (2016), 'Friends on Tap – The Role of Pubs at the Heart of the Community', yn cyfeirio at effeithiau cadarnhaol tafarndai ar iechyd a lles ac at y ffaith eu bod yn achubiaeth i nifer o aelodau'r gymuned:

“There has been a growing recognition over the past decade that the single most important factor determining health, wellbeing and survival is the size and quality of our personal social networks. The more people you know, and the more often you see them, the better you feel and the healthier you are...”

Pubs allow us to mix and meet a wider range of community members, and hence interact with a greater diversity of social classes and cultures, than would otherwise be the case if our social world is confined to work and home. Being more engaged with your local community and being involved more frequently in conversations with other individuals can have substantial benefits by reducing loneliness, which in turn is likely to have

significant health and wellbeing benefits. Happy people and those who are embedded in large, well-integrated social networks are sick less often...

Directly and indirectly, pubs as venues for social communities are likely to yield significant savings on health care budgets. In this context, pubs serve an important hub function, by providing a venue at which people can meet. With the exception of places of worship, few venues in the contemporary world provide an open environment for meeting new people, especially for older age groups. For incomers to a neighbourhood and those whose turn of life has left them socially isolated, becoming a 'regular' at a community pub can become a gateway for meeting new friends – and, through this, a lifeline."

Mae'n bwysicach nag erioed buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol i gynorthwyo a chefnogi pobl yn y cyfnod o adfer yn dilyn y pandemig. Bydd canolfannau cymunedol yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi ein hadferiad hir ac araf; nid oes modd mesur pa mor werthfawr yw bod â lle y mae trigolion lleol yn teimlo eu bod yn 'berchen' arno ar y cyd ac sy'n sbardun ar gyfer ymgysylltu ehangach. Derbynnir yn gyffredinol fod canolfannau cymunedol yn arwain at rwydweithiau o wirfoddolwyr brwd, gwell iechyd a lles, rhagor o ymgysylltiad democrataidd, a chymunedau sydd â'r gwydnwch i ymdopi â'r argyfwng presennol, a'r argyfyngau a allai ddilyn yn y dyfodol.

2.3 Y Cyd-destun Ehangach

Drwy fabwysiadu'r prosiect cymunedol hwn, mae Menter Ty'n Llan yn ymateb i ddeddfwriaeth genedlaethol a blaenoriaethau lleol ym maes cynaliadwyedd a lles.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Mae'n ddarn arloesol o ddeddfwriaeth, a gydnabyddir felly gan y Cenedloedd Unedig. Mae'r Ddeddf yn tynnu sylw at saith nod llesiant a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi fframwaith statudol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar y cyd ac mewn modd cynhwysol, gan ystyried anghenion hirdymor y gymuned. Diben y Ddeddf yw sicrhau bod gyrff cyhoeddus nid yn unig yn diwallu anghenion presennol eu cymunedau ond hefyd nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidio cenedlaethau'r dyfodol. Y nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion.

Gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw uchafu annibyniaeth pobl, cysylltu pobl â'u cymunedau a lleihau neu ohirio dibyniaeth pobl ar ymyriadau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae'n pwysleisio bod angen i awdurdodau lleol fod yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau ataliol, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sicrhau gwerth am arian, ac ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau, y trydydd sector, mentrau cymdeithasol a darparwyr eraill i ddiwallu anghenion cymunedau, a hybu iechyd a lles pobl er mwyn gohirio neu atal yr angen am ofal statudol.

Mae prosiect Menter Ty'n Llan yn cyd-fynd ag amcanion y Deddfau uchod. At hynny, drwy gydol y prosiect hwn bydd Menter Ty'n Llan yn gweithredu'n gyson ag ysbryd y ddeddfwriaeth genedlaethol ar gynaliadwyedd ac yn gweithio gyda Chynllun Llesiant Lleol Gwynedd a Môn i gyflawni ein nodau.

2.4 Statws y Ddogfen Hon

Mae'r cynllun busnes lefel uchel hwn yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer Ty'n Llan ac yn amlinellu sut y bwriadwn ddatblygu a rhedeg y fenter, gan sicrhau ei hyfywedd i'r dyfodol a gwneud yn siŵr ei bod yn cyflawni ein cenhadaeth gymdeithasol. Bydd y cynllun busnes hefyd yn cefnogi'r ceisiadau grant y byddwn yn eu gwneud; mae **Atodiad 1** yn amlinellu rhai o'r cronfeydd grant y gallem fod yn gymwys ar eu cyfer.

Datblygwyd y ddogfen hon gan Bwyllgor Rheoli ac is-grwpiau Menter Ty'n Llan. Adolygwyd a darparwyd cyngor allanol gan y canlynol:

Sefydliad Plunkett
Canolfan Cydweithredol Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cafodd y cynllun busnes ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli Menter Ty'n Llan ar 20 Ebrill 2021. Rydym yn cydnabod y bydd y cynllun busnes hwn yn esblygu, a byddwn yn datblygu cynllun manylach unwaith y bydd cynlluniau pensaernïol terfynol ac amcangyfrifon cost wedi'u cwblhau ar gyfer yr adeilad.

3. Ynglŷn â Llandwrog

3.1 Ystadegau ac Asedau Allweddol

3.1.1 Poblogaeth

Pentref bychan yn ward y Groeslon yw Llandwrog. Mae gan y pentref ei hun (gan gynnwys Dinas Dinlle) boblogaeth o tua 460 o bobl². Yn ôl Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2019 y Swyddfa Ystadegau Gwladol mae gan ward y Groeslon 1,707 o drigolion, ac mae bron i chwarter ohonynt dros 65 oed (24%), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20%.

Mae Cyfrifiad 2011³ yn dangos bod 92% o boblogaeth ward y Groeslon yn byw yn yr un cyfeiriad flwyddyn cyn dyddiad y cyfrifiad⁴. Roedd yr 8% arall wedi symud i'r ardal, ac roedd 6% ohonynt wedi symud o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig a 2% ohonynt o ardal y Groeslon. Dengys hefyd fod 92 o bobl wedi symud allan o'r ardal.

3.1.2 Cyflogaeth ac Incwm

Mae nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (ynghyd â'r rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac yn ddi-waith) wedi cynyddu o 1.5% ym mis Ionawr 2019 i 5.5% ym mis Awst 2020.⁵

Mae Llandwrog yn Etholaeth Seneddol Arfon, lle mae'r cyflog wythnosol canolrifol⁶ yn £480 o gymharu â £540 yng Nghymru a £580 yn y Deyrnas Unedig.

Yn ôl Cyfrifiad 2011⁷ nid oedd gan 18% o drigolion ward y Groeslon unrhyw gymwysterau ffurfiol. Ar y llaw arall roedd gan 30% o'r boblogaeth radd neu gymhwyster cyfatebol.

O blith y bobl ifanc 16-74 oed sy'n gweithio yn ardal y Groeslon, roedd 16% yn gweithio fel crefftwyr medrus a 18% yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol.

Mae 35% o'r bobl sy'n gweithio yn gorfod teithio mwy na 10km i gyrraedd y gwaith.⁸ Yn ôl yn 2011, dywedodd 14% eu bod yn gweithio gartref.

Roedd 70% o'r holl bobl mewn oedran gweithio (16 – 74) yn economaidd weithgar⁹ yn ward y Groeslon. O blith y rhai a oedd yn economaidd weithgar, roedd 3% yn ddi-waith ac 1.1% yn ddi-waith

² Cofrestr Etholiadol Ionawr 2020

³ Data Cyfrifiad 2011 yw'r data diweddaraf sydd ar gael. Er eu bod bellach wedi dyddio gan ddeng mlynedd, maent yn dal i roi meincnod ddibynadwy o ran ystadegau.

⁴ Data Cyfrifiad 2011 - Ymfudo

⁵ Pobl ifanc 16-64 oed sy'n hawlio budd-dal diweithdra: Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

⁶ Arolwg Blynnyddol Oriau ac Enillion : Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyflog Wythnosol Gros Amser Llawn 2019

⁷ Data Cyfrifiad 2011 – Cymwysterau pobl ifanc 16 oed +

⁸ Data Cyfrifiad 2011 – Pellter Teithio i'r Gwaith – pobl ifanc 16 oed +

⁹ Data Cyfrifiad 2011 – Gweithgarwch Economaidd

yn y tymor hir. O blith y 30% a oedd yn economaidd anweithgar, roedd 18% wedi ymddeol, roedd 4% yn fyfyrwr, roedd 4% yn sâl yn y tymor hir ac roedd 3% gartref yn gofalu am y teulu.

3.1.3 Mynediad at Wasanaethau

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae ardal y Groeslon o fewn yr 20% uchaf (271 allan o 1,909) o ardaloedd yng Nghymru sydd â'r mynediad gwaethaf at wasanaethau. Yn Llandwrog ei hun nid oes siopau, canolfan gymunedol nac amwynderau lleol.

3.1.4 Troseddu

Yn ystod 2019 cafwyd 71 o achosion o droseddau stryd¹⁰ yn ardal y Groeslon. Mae hyn yn cyfateb i 50.5 o droseddau'n cael eu cyflawni fesul 100,000 o'r boblogaeth (16+). Roedd bron i hanner y troseddau'n droseddau treisgar a throseddau rhywiol.

3.1.5 Y Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2011¹¹ nifer y bobl dros 3 oed a allai siarad Cymraeg yn y ward oedd 81%. Mae hyn yn cymharu â 65% yng Ngwynedd ac 19% yng Nghymru.

3.1.6 Iechyd a Lles

Yn 2011, dywedwyd bod gan bron i 20% o boblogaeth ward y Groeslon salwch neu anabledd hirdymor¹² a nododd 4% fod eu hiechyd yn ddrwg neu'n wael iawn.

Dywedodd 10% o boblogaeth ward y Groeslon eu bod yn darparu gofal di-dâl.¹³ O'u plith, darparai bron i draean ohonynt o leiaf 20 awr o ofal di-dâl yr wythnos.

3.1.7 Aelwydydd¹⁴

Mae 202 o aelwydydd yn ward y Groeslon lle mai dim ond pobl o oedran pensiwn sy'n byw. Mae hyn yn cyfateb i 28% o'r holl aelwydydd, sy'n uwch na ffigur Cymru, sef 23%. O blith yr aelwydydd hyn, mae 125 yn cynnwys pobl o oedran pensiwn sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r bobl hyn mewn mwy o berygl o brofi unigedd cymdeithasol ac unigrwydd.

Dim ond 11% o gartrefi sy'n cael eu rhentu'n gymdeithasol yn ward y Groeslon gyda 10% arall yn cael eu rhentu'n breifat. Nid oedd gan bron i 6% o aelwydydd wres canolog yn ôl yn 2011. Nid oedd gan 12% o aelwydydd gar yn ôl yn 2011. Mae gan yr ardal gyfradd uwch na chyfartaledd Cymru o bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

¹⁰ Data.police.uk – Ffigurau Troseddau Stryd

¹¹ Data Cyfrifiad 2011 – Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg 3 oed +

¹² Data Cyfrifiad 2011 – Byw gyda salwch/anabledd hirdymor

¹³ Data Cyfrifiad 2011 – Darparu gofal di-dâl

¹⁴ Data Cyfrifiad 2011

3.1.8 Cyfleusterau ac Asedau

Mae'r cyfleusterau presennol yn Llandwrog yn brin ac yn anymarferol ar y cyfan:

- Ysgol Llandwrog – gofod bach a ddefnyddir ar gyfer rhai digwyddiadau'n ymwneud â'r ysgol
- Eglwys Sant Twrog – anymarferol, dim festri
- Capel Bwlan – capel anghydfurfiol gyda festri hanner milltir o'r pentref
- Canolfan Bro Llanwnda – neuadd bentref ddirwydded 2 filltir i ffwrdd, y dewis agosaf ar hyn o bryd ar gyfer grwpiau, cyfarfodydd cyhoeddus ac ati
- Gwylwyr y Glannau Llandwrog – ystafell fach mewn adeilad cyfagos

Nid oes siopau, caffis, na neuadd bentref/gymunedol ac mae trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig iawn (2 fws y dydd). Gan nad oes mannau cyfarfod na chyfleusterau cymunedol, ni allwn drefnu llawer o ddigwyddiadau i ddod â'r gymuned at ei gilydd. Dros y blynyddoedd, mae tystiolaeth bod rhai grwpiau cymunedol a grwpiau cymdeithasol lleol wedi dod i ben gan nad oedd ganddynt le cyfarfod lleol e.e. Merched y Wawr, Grŵp Ti a Fi, Tîm Pŵl, Tîm Dartiau, Aelwyd yr Urdd. Mae'r diffyg lle i gyfarfod hefyd yn rhwystr i grwpiau newydd ffurfio. Roedd Pwyllgor Pentref Llandwrog, a ffurfiwyd yn ddiweddar (2018), wedi bod yn cwrdd, cyn Covid-19, yng nghartrefi'r aelodau, sef yr unig opsiwn oedd ar gael.

Mae cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu a chymryd rhan yn yr ardal yn gyfyngedig, hyd yn oed yn fwy felly ers i'r awdurdod lleol gau clybiau ieuencid dros ddwy flynedd yn ôl. Caernarfon yw'r dref agosaf; fodd bynnag, mae'r diffyg trafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn golygu na all pobl ifanc fynd yno na dod oddi yno'n annibynnol, gan gynyddu'r risg o unigedd ac unigrwydd i'r grŵp oedran hwn.

3.2 Cynllun Cyfeillio Covid-19

Mewn ymateb i bandemig Covid-19 trefnodd cymuned Llandwrog (drwy Bwyllgor Pentref Llandwrog) Gynllun Cyfeillio i gefnogi trigolion bregus. Nodwyd bod dros 50 o unigolion yn agored i niwed oherwydd oedran, anabled, cyflyrau meddygol ac ati. Trefnwyd pecyn bwyd hanfodol wythnosol ar gyfer yr aelwydydd hyn ac roedd tîm o wirfoddolwyr yn eu dosbarthu. Roedd y tîm o wirfoddolwyr hefyd yn cynnwys pobl ifanc leol a oedd am helpu, ac roedd eu cyfranogiad yn cyfrif tuag at eu Gwobr Dug Caeredin. Roedd y trigolion yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth hon, ac roedd y cyswllt wythnosol yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w lles. Mae'r cynllun Cyfeillion yn parhau, a chydabyddir bod angen mwy o gyfleoedd ar ein trigolion bregus i fynd ati i gymdeithasu.

3.3 Ein Hanes a'n Treftadaeth

Mae Llandwrog yn ardal gadwraeth. Mae'r pentref hanesyddol hwn yn amgylchynu'r eglwys fu'n sefyll yno ers dros ddau gan mlynedd. Mae nifer o'r cerrig beddau yn y fynwent o'r 18fed ganrif. Mae'r ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae ffurfiau pensaernïol penodol yn nodweddu llawer o'r tai a'r ysgol leol ac maent o'r

herwydd yn adeiladau rhestredig. Y ffaith bod y dreftadaeth hon wedi ei chadw sy'n gwneud Llandwrog yn lle mor arbennig.

Pentref ystâd 'model' yw Llandwrog, a grëwyd mewn dau gyfnod penodol gan Wynniaid Plas Glynllifon yng nghanol y 19eg ganrif. Adeiladwyd Ty'n Llan yn y 1830au, er ei bod yn debyg ei fod yn cynnwys rhannau helaeth o strwythur cynharach, fel rhan o gynlluniau'r trydydd Arglwydd Newborough i ailddatblygu Llandwrog fel pentref ystâd. Tafarn bentref oedd Ty'n Llan ac roedd yn adeilad mawr ac iddo lawer o fanylder mewn arddull glasurol syml. Mae'n rhan annatod o'r pentref ystâd cynlluniedig pwysig hwn o'r cyfnod Fictoraidd cynnar.

Mae holl adeiladau'r pentref a adeiladwyd gan ystad Glynllifon yn adeiladau rhestredig Gradd II ac mae cymeriad Gothig Bictiwrésg amlwg iddynt. Yr ystad wreiddiol - nid chwarter milltir o'r pentref - bellach yw Parc Glynllifon ac yno ceir coleg amaethyddol Coleg Meirion-Dwyfor, gweithdai crefft a llawer o gyfleusterau addysgol. Mae caffi a drysfa wrth y fynedfa, ac mae arddangosfeydd megis injan stêm lorweddol sefydlog De Winton 1854 a boeler Cernyw, a adferwyd gan Fred Dibnah, yn atyniadau poblogaidd y gellir eu gweld yno. Mae'r parc yn agored i'r cyhoedd ac mae'n cynnwys gerddi o bwys hanesyddol a gwyddonol. Dynodwyd statws Gardd Hanesyddol (Gradd I) iddynt gan Cadw ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi eu dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r Cwd-bwyllgor Cadwraeth Natur hefyd wedi'i dynodi Glynllifon yn Ardal Cadwraeth Arbennig o dan Atodiad II. Mae'n gynefin i'r ystlum pedol lleiaf, neu'r *rhinolophus hipposideros* a rhoi iddo ei enw Lladin. Mae'r safle 189.27 hectar hwn yn safle magu a chysgu i tua 6% o boblogaeth y rhywogaeth hon yn y Deyrnas Unedig.

Gerllaw yn Ninas Dinlle ceir bryngaer o Oes yr Haearn sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol lle cafwyd hyd i arteffactau Rhufeinig. Maes awyr hyfforddi yn ystod yr Ail Ryfel Byd oedd RAF Llandwrog ac fe'i defnyddiwyd yn ddiweddarach fel cyfleuster storio arfau. Fel rhan o Ymgyrch Sandcastle, yma y storiwyd nifer fawr o arfau Tabun y Natsïaidd cyn eu gwaredu yn y môr maes o law.

Mewn partneriaeth, byddwn yn gwella ac yn hyrwyddo treftadaeth naturiol yr ardal ac yn diogelu'r safle treftadaeth hwn sydd mewn lleoliad canolog ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu cyfleoedd a fydd o fudd i holl aelodau'r gymuned. Mae'r gymdeithas hanes leol - Cymdeithas Hanes y Tair Llan - yn gefnogol iawn i'r fenter a bydd yn gweithio gyda ni i wneud cyswllt rhwng y dafarn â hanes a threftadaeth leol. Bydd y datblygiad yn parchu, yn hyrwyddo ac yn diogelu cymeriad yr Ardaloedd Cadwraeth hyn.

3.4 Twristiaeth a'r Sylfaen Cwsmeriaid Posibl

Prif sylfaen cwsmeriaid Ty'n Llan, gydol y flwyddyn, fydd trigolion lleol Llandwrog, Dinas Dinlle a'r cyffiniau. Y nod yw creu cyfleuster cymunedol a fydd yn annog pobl leol i'w ddefnyddio, a bydd yn gwasanaeth a ddarperir yn yr adeilad yn adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, mae marchnad ymwelwyr lawer ehangach y gallwn fanteisio arni yn ystod rhai adegau o'r flwyddyn.

Mae Llandwrog mewn lleoliad perffaith i fanteisio ar y farchnad ymwelwyr. Mae wedi ei leoli nid nepell o brif gefnffordd yr A499 o Gaernarfon i Bwllheli, yn agos iawn at Barc Cenedlaethol Eryri a Phen Llŷn, ac mae traeth Dinas Dinlle i lawr y ffordd. Mae Llandwrog hefyd o fewn ychydig gannoedd o lathenni i Lwybr Dave Brailsford, sef dau lwybr beicio o wahanol bellter sy'n tywys pobl o amgylch y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â rhwydwaith beicio'r Lonydd Glas sy'n targedu'r farchnad beicio teuluol a hamdden.

Mae Llandwrog hefyd oddi fewn i ardal farchnata Eryri Mynyddoedd a'r Môr, sef y 'brand' sy'n cael ei hyrwyddo gan dîm Twristiaeth Cyngor Gwynedd. Ei ddiben yw hyrwyddo'r ardal gyfan, a'r gwahanol gynhyrchion a geir yn yr ardal, ac mae cynhyrchion twristiaeth eraill sy'n cael eu marchnata'n genedlaethol hefyd yn rhan o'r arlwy gyffredinol.

Un o'r cynhyrchion presennol hyn yw Ffordd Cymru, sef tri llwybr o amgylch nifer o atyniadau Cymru a gweithgareddau i'w gwneud. Y tri llwybr yw Ffordd y Cambrian (o Landudno i Gaerdydd, yr A470 yn y bôn!), Ffordd Gogledd Cymru (ar hyd arfordir gogledd Cymru - yr A55), a Ffordd yr Arfordir (o Dŷ Ddewi yn Sir Benfro i Aberdaron). Mae Llandwrog rhwng Ffordd Gogledd Cymru a Ffordd yr Arfordir. Gan nad yw'r cynnyrch hwn wedi'i lansio eto ni allwn fesur effaith yr ymgyrchoedd sydd ar waith i'w hyrwyddo, ond mae angen inni ystyried Ffordd Cymru wrth inni geisio targedu ymwelwyr.

Cynnyrch twristiaeth cenedlaethol arall sy'n llawer nes yw Llwybr yr Arfordir. Llwybr 870 milltir o amgylch arfordir Cymru yw Llwybr yr Arfordir sy'n denu dros 2 filiwn o ymwelwyr i Gymru bob blwyddyn, ac mae tua 30% ohonynt angen llety ar hyd y daith. Mae rhan leol y llwybr o fewn pellter cerdded hwylus i Ty'n Llan.

Rhwng y gwahanol gynhyrchion proffil uchel sydd o'n cwmpas - yr arlwy o ran beicio, cerdded a bod y traeth o fewn cyrraedd - mae marchnad ymwelwyr sylweddol i'w thargedu.

Os edrychwn ar niferoedd cyffredinol ymwelwyr i'r ardal (Gwynedd), ymwelodd 7.8 miliwn o bobl â'r ardal yn 2019, gyda 3.97 miliwn ohonynt yn aros yma (sy'n cyfateb i 20.1 miliwn o nosweithiau ymwelwyr), a 3.84 miliwn yn ymwelwyr dydd (23.93 diwrnod ymwelwyr). Cynyddodd cyfanswm cyffredinol nifer yr ymwelwyr gan 11.6% o'r flwyddyn flaenorol yn ôl ystadegau Cyngor Gwynedd. Mae dros filiwn o ymwelwyr unigryw yn ymweld â gwefan swyddogol www.visitsnowdonia.info, ac mae cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghyrhaeddiant a nifer dilynwyr sianeli cyfryngau cymdeithasol yr ardal.

Os edrychwn ar y proffil ymwelwyr, daw 50% o rannau eraill o Gymru, 46% o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a 4% o dramor. Daw 75% ohonynt o grŵp economaidd-gymdeithasol ABC1 ac mae 29% o'r ymwelwyr yn gyplau, 24% yn deuluoedd â phlant ifanc, ac 19% yn deuluoedd â phlant hŷn. Daw'r ffigurau hyn o 2019 (cyn covid), a gallai rhywun dybio gyda rhywfaint o sicrwydd y bydd twf y farchnad gwyliau cartref yn ystod ac ar ôl Covid yn peri cynnydd yn y ffigurau hyn.

Y prif resymau a roddwyd dros ymweld oedd y dirwedd, cefn gwlad, lleoliad arfordirol, gweithgareddau/chwaraeon awyr agored, ac atyniadau treftadaeth/hanesyddol. Unwaith eto, mae'r holl resymau hyn dros ymweld ar garreg ein drws.

Ystyriaeth bwysig iawn arall i'n marchnad yw pa mor agos yw Dinas Dinlle, lle ceir dau barc carafannau mawr ac un llai ei faint. Gwyddom fod yr ymwelwyr hyn wedi cefnogi Ty'n Llan yn y gorffennol, ac mae'n ddiogel tybio y byddant yn parhau i wneud hynny unwaith y bydd y dafarn yn ailagor.

3.5 Y Gystadleuaeth

Nid oes unrhyw beth cyffelyb i'r model o dafarn bentref gydag ystafelloedd / bwyty / caffi yr ydym ni yn ei gynllunio o fewn 5 milltir – nac yn wir o fewn 8 milltir os ydym yn eithrio tref Caernarfon.

Cyfleusterau lleol presennol:

I'r gogledd:

- Y Newborough, Bontnewydd (3 milltir) – ar y brif ffordd, tafarn yn gweini bwyd ac mae ar werth ar hyn o bryd
- Canolfan Arddio Fron Goch (4 milltir) - canolfan arddio gyda chaffi poblogaidd iawn
- Caernarfon (5 milltir) – nifer o dafarndai a bwytai, y lle tebycaf yw Tafarn y Black Boy

I'r dwyrain:

- Pennionyn, Groeslon (2 filltir) - tafarn draddodiadol, dim bwyd

I'r de:

- Yr Afr, Penygroes (3 milltir) - tafarn draddodiadol, dim bwyd
- Pant Du (3 milltir) – gwinllan a pherllan gyda bwyty/caffi newydd a golygfeydd gwych
- Deli'r Banc, Penygroes (3 milltir) - deli a chaffi
- Yr Orsaf, Penygroes (3 milltir) - caffi
- Tafarn yr Afr, Glandwyfach (10 milltir) – tafarn fawr gyda bwyty llwyddiannus iawn

I'r gorllewin:

- Traeth Dinas Dinlle – hufen iâ, pysgod a sglodion. Dim safle trwyddedig sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae gan y parciau carafannau gyfleusterau clwb

4. Cynnwys y Gymuned a Gweithio mewn Partneriaeth

4.1 Cynnwys y Gymuned ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

4.1.1 Cyfarfodydd Cyhoeddus Zoom

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus cychwynnol ar 9 Chwefror 2021 i geisio barn pobl am y syniad o brynu a rhedeg Ty'n Llan fel menter gymunedol. Cafwyd ymateb anhygoel, gyda 64 o aelwydydd yn ymuno yn y cyfarfod, ac amcangyfrifwn eu bod yn cynrychioli cyfanswm o tua 100 o bobl. Cyflwynwyd y syniad a rhannu sut y byddai'r math hwn o gynllun yn gweithio. Roedd cynrychiolwyr o Dafarn y Plu, Llanystumdwy hefyd yn bresennol i rannu eu profiad o redeg tafarn gymunedol. Y consensws cyffredinol oedd bod pobl yn cefnogi'r cynnig hwn a'u bod yn awyddus i fwrw ymlaen â'r syniad. Yn dilyn hyn, lansiwyd apêl gennym i fenthycyca'r arian oedd ei angen i brynu'r adeilad gyda benthyciadau tymor byr.

Trefnwyd ail gyfarfod ar 9 Mawrth 2021 ac roedd 58 o aelwydydd yn bresennol. Y diben oedd rhoi diweddariad i bobl am y broses o brynu'r adeilad, trafod canfyddiadau'r holiadur (gweler isod), ac ystyried gweledigaeth ar gyfer yr adeilad. Unwaith eto, cafwyd cefnogaeth aruthrol i'r cynigion a chytunwyd i fwrw ymlaen i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei brynu.

4.1.2 Holiadur Cymunedol

Ar 10 Chwefror, lansiwyd holiadur gennym i gasglu syniadau ac awgrymiadau pobl. Ymatebodd cyfanswm o 203 o aelwydydd, a oedd yn cynrychioli cyfanswm o 406 o bobl. Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Roedd cefnogaeth gref iawn i'r syniad, gydag 88% o ymatebwyr yn ystyried bod prynu Ty'n Llan fel cymuned yn 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn'
- Dywedodd 57% o aelwydydd y byddent yn defnyddio'r cyfleusterau 'o leiaf unwaith yr wythnos'
- Roedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau ychwanegol mwyaf poblogaidd yn cynnwys: bwyd gyda'r nos, digwyddiadau, cinio dydd Sul, ardal lle byddai croeso i deuluoedd, bwyd yn ystod y dydd
- Roedd y syniadau ychwanegol mwyaf poblogaidd a gynigiwyd yn cynnwys: grwpiau a dysgu, digwyddiadau awyr agored, lle i'w rentu, ffitrwydd, cyfleusterau addas i blant a phobl ifanc
- Nododd dros 40 o aelwydydd (cyfanswm o tua 85 o bobl) y byddent eisiau gwirfoddoli yn ystod y datblygiad a helpu i redeg y fenter

Gellir gweld yr adroddiad llawn yn **Atodiad 2**.

4.1.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Phartneriaid

Cynhaliwyd trafodaethau gyda rhai partneriaid a rhanddeiliaid, sy'n cefnogi'r datblygiad hwn yn llawn. Yn eu plith mae:

- Sefydliadau statudol
- Sefydliadau'r trydydd sector
- Yr ysgol gynradd leol
- Cymdeithasau lleol a grwpiau cymunedol
- Busnesau lleol
- Aelodau etholedig

Ceir enghreifftiau o rai llythyrau cefnogaeth yn **Atodiad 3**.

4.2 Ennyn Diddordeb Ystod Ehangach o Bobl a Gweithio Mewn Partneriaeth

Mae cefnogaeth gymunedol sylweddol i'r prosiect hwn ac mae rhanddeiliaid, cymdeithasau a busnesau o'r ardal ehangach hefyd yn gefnogol (Gweler enghreifftiau o lythyrau cefnogi yn **Atodiad 3**).

Bydd amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli ac i fod yn rhan o'r prosiect hwn ar bob cam o'r daith. Mae cyflawni ein cenhadaeth gymdeithasol, a bod yn atebol i'n cyfranddalwyr a'r gymuned ehangach yn ffactor pwysig sy'n greiddiol i lwyddiant y prosiect hwn.

Drwy'r holiadur cymunedol cychwynnol, nododd dros 40 o aelwydydd (tua 85 o bobl) y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwirfoddoli - i ddatblygu'r adeilad ac i helpu i redeg y fenter. Rydym yn bwriadu darparu cyfleoedd gwirfoddoli ar bob cam o'r daith. Dyma enghreifftiau o rai o'r cyfleoedd hynny i wirfoddoli:

- Cam datblygu'r prosiect - pwyllgor rheoli ac is-grwpiau, clirio'r safle, paentio, addurno, garddio a thirlunio, dylunio mewnol, cynllunio bwydlenni
- Rhedeg y busnes - helpu yn y gegin, gweini, glanhau
- Hyrwyddo gweithgarwch cymdeithasol - trefnu digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol o bob math i gynyddu cyfranogiad, ynghyd â chyfleoedd i gymdeithasu a chael mwy o bobl i gymryd rhan

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd y prosiect yn creu llawer o gyfleoedd gwaith ac rydym yn awyddus i sicrhau'r manteision cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl trwy'r prosiect hwn. Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddigynsail ar ddiweithdra yng Ngwynedd, ac ym mis Chwefror

2021, yn ward y Groeslon, cafwyd cynnydd sydd gyda'r uchaf trwy'r sir yn y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.¹⁵ Mae posibilrwydd cryf y gwelir cynnydd pellach pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid lleol i uchafu manteision y prosiect hwn i bawb a sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod ehangach o bobl. Rydym eisoes yn cael cefnogaeth gan y sefydliadau canlynol a byddwn yn parhau i drafod gydag amrywiol bartneriaid eraill:

Canolfan Gwirfoddoli Mantell Gwynedd - Byddwn yn gweithio gyda'r ganolfan i sicrhau hyfforddiant priodol i'n gwirfoddolwyr ac i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i'r gymuned yn ehangach.

Gwaith Gwynedd (Cyngor Gwynedd) - Byddwn yn gweithio gyda Gwaith Gwynedd a fydd yn cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cymru'n Gweithio, darparwyr hyfforddiant ac addysg (Coleg Llandrillo Menai ac ysgolion lleol) ar ein rhan i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau, hyfforddiant a phrofiad gwaith. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i drefnu sesiynau neu stondinau gwybodaeth i hyrwyddo arbed arian, bod yn ddarbodus ac yn effeithlon o ran ynni.

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd - Dangoswyd diddordeb mewn defnyddio Ty'n Llan fel man casglu llyfrgell, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd cynulleidfa ehangach a'i fod yn fwy hygyrch.

Banc Bwyd Arfon - Byddwn yn gweithio gyda'r banc bwyd i leihau gwastraff bwyd ac i helpu pobl mewn angen.

Grŵp Cynefin - Mae'r grŵp yn gweithio gyda ni i sicrhau y bydd buddion Canolfan Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle ym Mhenygroes yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl pan gaiff ei datblygu. Oherwydd diffyg trafndiaeth gyhoeddus rhwng Penygroes a Llandwrog, rydym yn trafod y posibilrwydd o ddefnyddio Ty'n Llan fel lleoliad lloeren ar gyfer rhai gwasanaethau a gweithgareddau iechyd a lles. Rydym hefyd yn trafod sut y gall prosiect Ty'n Llan gyfrannu at y cynllun presgripsiynu cymdeithasol gan ein bod yn cydnabod bod gwirfoddoli a chymdeithasu o fudd i iechyd a lles.

Antur Waunfawr - Mae gan fenter gymdeithasol leol sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu ddiddordeb mewn gweithio gyda Ty'n Llan i hyrwyddo beicio ac i drafod y posibilrwydd o weithredu cyfleuster llogi beiciau yn Ty'n Llan sy'n addas i bobl o bob gallu.

Gardd Gymunedol Llandwrog - Prosiect newydd rhwng Cyfeillion Ysgol Llandwrog, Ysgol Gynradd Llandwrog, Pwyllgor Pentref Llandwrog a'r Clwb Garddio - Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo tyfu bwyd gyda'r potensial o gyflenwi bwyd i Ty'n Llan. Bydd hyn yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli pellach, yn fodd o gynnwys plant, yn ffordd o gyflawni buddion iechyd a lles ac yn gyfrwng i ddysgu am fanteision tyfu bwyd a garddio.

¹⁵ NOMIS 2021

Ysgol Llandwrog - Byddwn yn gweithio gyda'r ysgol gynradd i sicrhau bod plant lleol yn cymryd rhan yn natblygiad Ty'n Llan. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyflwyniad i blant yr ysgol am y datblygiad, eu cynnwys yn y cam dylunio a chael eu mewnbwn wrth ddatblygu bwydlen plant, lle addas ar eu cyfer a gweithgareddau arfaethedig i blant a theuluoedd.

Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd - Byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid i gynnwys pobl ifanc yn y cam dylunio ac wrth ddatblygu gweithgareddau a bwydlen fydd yn addas i bobl ifanc. Ein nod yw y bydd yr ystafell amlbwrpas ar gael i gynnal gweithgareddau ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

Cynllun Cyfeillio Llandwrog - Byddwn yn gweithio gyda Phwyllgor Pentref Llandwrog i drafod y posibilrwydd o barhau â Chynllun Cyfeillio Covid-19, a aeth ati i nodi 50 o aelwydydd lle'r oedd pobl fregus yn byw (oedran, byw ar eu pen eu hunain, cyflyrau iechyd). Gallai hyn gynnwys dosbarthu pryddau poeth yn ystod y gaeaf a gwasanaeth gwirfoddol i ddsbarthu bwyd i'r rhai nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi.

5. Adnewyddu ac Ailfodelu

5.1 Cyflwr Cyfredol

Cwblhawyd arolwg o gyflwr yr adeiladau ym mis Chwefror 2021 a nodwyd fod angen gwneud gwaith helaeth i ddiogelu ac adnewyddu'r adeilad presennol; adroddiad llawn yr arolwg ar gael ar gais.

5.2 Datblygu ac Ailfodelu i Ddiwallu Anghenion

Yn seiliedig ar yr hyn y mae'r gymuned a'r rhanddeiliaid eisoes wedi'i ddweud wrthym, ein dymuniad yw datblygu'r cyfleusterau canlynol yn Ty'n Llan:

- Parhau fel tafarn draddodiadol Gymreig a Chymraeg
- Darparu bwyd a diod o Gymru, sydd o ansawdd da, yn ystod y dydd a gyda'r nos – gan ddefnyddio cynnyrch lleol
- Ystafell neu ystafelloedd hygyrch ac amlbwrpas i gynnal digwyddiadau, dathliadau, gweithgarwch cymunedol, cyfarfodydd, cyrsiau a gofod ychwanegol ar gyfer y bwyty pe bai angen
- Amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ar gyfer pob oedran
- Lle storio a swyddfa addas i staff
- Mynediad hygyrch a chyfleusterau toiled ychwanegol
- Posibilrwydd o ddarparu siop dros dro yn gwerthu cynnyrch o Gymru ac eitemau hanfodol bob dydd
- Ystafelloedd gwely o ansawdd da
- Ardaloedd lle bydd croeso i deuluoedd
- Gardd groesawgar a defnyddiol

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cydnabod nad yw'r adeilad presennol yn addas i'r diben ac y bydd angen uwchraddio helaeth, gan wneud gwaith datblygu ac ailfodelu o bosibl. Rydym yn bwriadu ystyried yr opsiynau sydd gennym o ran yr adeilad drwy gomisiynu pensaer lleol sy'n arbenigo mewn treftadaeth a chadwraeth. Byddwn yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu arferion caffael moesegol mewn perthynas ag unrhyw waith y byddwn yn ei gomisiynu.

5.3 Cyfyngiadau Covid-19

Wrth ddatblygu ac ailfodelu Ty'n Llan byddwn yn ystyried goblygiadau Covid-19 a'r effaith bosibl ar weithrediad y busnes. Byddwn yn sicrhau bod y gofod y tu allan yn cael ei ddatblygu i'w wneud mor ddefnyddiol â phosibl. Bydd yn cynnwys cyfleusterau megis:

- cegin awyr agored - popty pizza, barbeciw
- ardal ar gyfer bar allanol teithiol

- man eistedd deniadol a gwasgaredig, ac ystyriaeth i ddulliau o ymochel rhag y tywydd (e.e. podiau unigol, canopi, gazebo, neu barasolau)

Byddwn hefyd yn sicrhau bod mynediad uniongyrchol i'n hystafelloedd gwely ynghyd â'r gallu i fod yn hunangynhwysol a bod cynllun y caffi a'r bwyty yn rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau posibl yn y dyfodol. Rydym yn rhagweld y bydd yr adeilad ar ei newydd wedd yn agor yn 2022/2023 a byddwn yn monitro effaith bosibl Covid-19 wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau a byddwn yn ymateb yn unol â hynny.

5.4 Lleihau ein Heffaith ar yr Amgylchedd

Mae Menter Ty'n Llan yn credu bod gwarchod yr amgylchedd a chymdeithas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau cynaliadwy. Caiff yr egwyddorion hyn hymgorffori yn ein gweithgareddau ac maent yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth o ddatblygu Ty'n Llan fel canolfan gymunedol, busnes cynaliadwy a chyfleuster amlbwrpas sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan, tra ydym hefyd yn diogelu'r ased hanesyddol hwn.

Byddwn yn cadw at yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy drwy wneud y canlynol:

- meddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol
- atal problemau cyn iddynt ddigwydd
- integreiddio ein gwasanaethau, ein sgiliau, ein cynllunio a'n cyfrifoldebau
- cynnwys ein cwsmeriaid, cydweithwyr, gwirfoddolwyr a'r gymuned yn ein penderfyniadau
- gweithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau lles pawb

Fel rhan o'n hymrwymiad amgylcheddol, bydd y gwaith o adnewyddu Ty'n Llan yn waith carbon sero net a fydd yn defnyddio methodoleg adrodd ryngwladol gydnabyddedig. Bydd deunyddiau wedi'u hadfer a'u huwchgylchu yn cael eu blaenoriaethu i gyflawni'r nod hwn, a bydd y carbon dros ben yn cael ei wrthbwyso drwy blannu coed yn lleol.

Rydym wedi gofyn am gyngor arbenigol i sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion amgylcheddol gorau a byddwn fel rhan o'r datblygiad yn ymgorffori'r argymhellion a welir yn y tabl dros y dudalen.

Mae gennym bolisi amgylcheddol a chod ecolegol a fydd yn cael eu dilyn a'u monitro gan y rheolwyr a chan y Bwrdd.

Ymgorffori'r Arferion Amgylcheddol Gorau wrth Ddatblygu Ty'n Llan

Nodwedd o'r adeilad		Argymhelliad
Goleuo		<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio dim ond goleuadau LED
Rheolyddion goleuo		<ul style="list-style-type: none"> Rheolyddion goleuo awtomatig mewn ardaloedd na chânt eu defnyddio'n aml.
System wresogi		<ul style="list-style-type: none"> Ystyried system wresogi Pwmp Gwres
Rheolyddion gwresogi		<ul style="list-style-type: none"> Falfiau Rheiddiaduron Thermostatig (TRVs) ar bob rheiddiadur. Rhannu'r adeilad yn barthau. Thermostat digidol/clyfar. Rheolyddion i wneud yn iawn am y tywydd.
Gwresogi - Nodweddion ychwanegol		<ul style="list-style-type: none"> Inswleiddio'r holl bibellau - hyd yn oed mewn manau wedi eu gwresogi.
Ffabrigau Adeiladu	Waliau	<ul style="list-style-type: none"> Rhagori ar reoliadau presennol inswleiddio i ddiogelu'r adeilad at y dyfodol - inswleiddio pob wal yn allanol neu'n fewnol
	To	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod o leiaf 300mm o inswleiddio yn yr atig. Yn ddelfrydol 400mm.
	Ffenestri a Drysau	<ul style="list-style-type: none"> Gosod ffenestri gwydr dwbl neu ffenestri eilaidd pan fo'n rhaid defnyddio ffenestri gwydr sengl. Atal drafftiau trwy bob ffenestr, drysau allanol a drysau sy'n arwain at fannau heb eu gwresogi.
Y seler ac oeri'r seler		<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu system oeri amgylchol Sicrhau bod drysau a waliau'r seler wedi'u hinswleiddio'n ddigonol ac atal drafftiau.
Arlwyo ac oergelloedd		<ul style="list-style-type: none"> Hobiau anwythiad ac offer arlwyo gradd A. Defnyddio oergelloedd gradd A gydag amseryddion er mwyn defnyddio llai o ynni.
Offer trydanol		<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio awyru adfer gwres i sicrhau bod lleithder yn cael ei reoli Gosod rheolyddion arbed pŵer a phaneli un clic
Offer bar		<ul style="list-style-type: none"> Gosod amseryddion 7 diwrnod neu reolyddion 'clyfar' ar oeryddion diodydd drafft. Gosod oergelloedd diodydd gydag amseryddion 7 diwrnod.
Cynhyrchu ynni adnewyddadwy		<ul style="list-style-type: none"> Dylid ymchwilio i system solar ffotofoltäig drwy gynnal arolwg dichonoldeb ac arolwg safle manwl.
Effeithlonrwydd Dŵr		<ul style="list-style-type: none"> Toiledau fflysio deuol gyda seston bach Rheolyddion synhwyro symudiad yn y troethfeydd, rhai di-ddŵr os oes modd Tapiau a phen-cawodydd awyru (anysgytwol) Casglu dŵr glaw

6. Costau ac Amserlenni'r Prosiect

6.1 Sut y Byddwn yn Ariannu Prynu'r Adeilad

Cytunwyd ar bris gwerthu o £325k ac rydym yn rhagweld y bydd cyfanswm y gwerthiant a'r costau cysylltiedig tua £333k.

Bydd y pryniant yn cael ei ariannu yn y lle cyntaf trwy werthu cyfranddaliadau cymunedol o ganlyniad i'r Cynnig Cyfranddaliadau. Os oes diffyg, telir gweddill y pris prynu drwy dynnu i lawr gyfran briodol o'r addewidion benthyciadau tymor byr, sydd lawer uwch na'r swm gofynnol, a gafodd eu sicrhau i warantu'r pryniant, a thelir llog o 2% ar y benthyciadau.

Y bwriad yw ad-dalu'r benthyciadau tymor byr o fewn 6 i 12 mis gyda morgais gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, grantiau o ffynonellau eraill pan fo'r telerau'n caniatáu, a gweithgareddau eraill i godi arian gan gynnwys benthyciadau hirdymor.

6.2 Costau a Chyllid Cyffredinol y Prosiect

Byddwn yn penodi pensaer lleol sydd â phrofiad o weithio ym maes treftadaeth a chadwraeth i ddatblygu cynigion dylunio ar gyfer y gwaith adnewyddu ac uwchraddio. Yn dibynnu ar y cynlluniau terfynol y cytunwyd arnynt, rydym yn rhagweld y bydd y costau hyn tua £250k - £400k. Caiff y costau hyn eu hariannu drwy weithgarwch codi arian a chyllid grant. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm costau'r fenter, gan gynnwys y pryniant cychwynnol, y gronfa wrth gefn a'r cyfalaf gweithio, yn £850,000.

Mae tystiolaeth bod Ty'n Llan yn gymwys ar sawl cyfrif am arian grant: sef yn bennaf, treftadaeth, creu swyddi, angen cymdeithasol a lles ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'n ymddangos bod nifer o gronfeydd posibl sydd wedi rhoi grantiau cyn hyn i brosiectau tebyg. Mae **Atodiad 1** yn amlinellu'r cyllid grant posibl sydd ar gael ar gyfer y prosiect hwn.

Bydd gwerthu Cyfranddaliadau Cymunedol yn elfen allweddol o ddull ariannu'r prosiect ac yn ddangosydd pwysig o'r gefnogaeth gymunedol a'r galw am y cyfleusterau y bydd yr ailddatblygiad yn eu darparu. Y targed a osodwyd ar gyfer y Cynnig Cyfranddaliadau cychwynnol yw £400,000.

Ar hyn o bryd, teimlir mai'r peth doethaf yw dangos yr amrywiol ffynonellau cyllid posibl ar y ffurf a roddir yn y tabl isod, sy'n ymddangos fel pe bai'n darparu gormodedd o gyllid. Wrth i wahanol elfennau gael eu cadarnhau (e.e. y swm a godir drwy werthu cyfranddaliadau cymunedol, argaeledd neu ddiffyg morgais gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a grantiau ac ati, ac wrth gwrs, gostau'r prosiect), bydd y cydbwysedd rhwng yr elfennau hyn yn dod yn gliriach. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio benthyciadau hirdymor gan gefnogwyr neu o'r farchnad fasnachol yn ffordd o gydbwysu'r hafaliad rhwng costau ac ariannu os oes angen. Bydd yr angen am fenthyciadau o'r fath, a'r telerau ar eu cyfer, yn cael ei bennu cyn ad-dalu'r benthyciadau tymor byr y gellid eu defnyddio i gwblhau pryniant cychwynnol y safle.

Model Cyllido a Gwariant

	£
Arian	
Benthyciadau tymor byr	180,000
Cyfranddaliadau Cymunedol a/neu fenthyciadau tymor hir	400,000
Grant Cist Gwynedd - Astudiaethau Paratoadol	10,000
Grant Cronfa Treftadaeth Bensaernïol Cymru - Pensaer / Syrfëwr meintiau	10,000
Cronfa Gyfalaf Treftadaeth Bensaernïol	80,000
Cronfa Gyfalaf Treftadaeth y Loteri - Gwaith	405,000
Morgais a Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	150,000
Grant Chwarel Moel Tryfan	250
Rhoddion	5,000
Codi arian/nwyddau	5,000
Cyfanswm y Cyllid	1,245,250
Incwm Arall	
Gwarged Masnachu Net blwyddyn 0	895
Cyfanswm	1,246,145
Gwariant	
Prynu'r eiddo	332,810
Tîm Dylunio Pensaernïol (Hyd at RIBA Cam 3 - i Gynnwys Ffioedd Syrfëwr Meintiau, astudiaethau eraill - arolwg ystlumod, asbestos ac ati...)	20,000
Atgyweirio ac adnewyddu	150,000
Gwaith datblygu newydd	250,000
Dodrefn ac offer	30,000
Wrth gefn	40,000
Cyfalaf gweithio	25,000
	847,810
Treuliau Eraill	
Llog ar Fenthyciadau	3,600
Ad-dalu benthyciadau tymor byr	180,000
	183,600
Cyfanswm Gwariant a Threuliau Eraill	1,031,410
Wrth Gefn	214,735

6.3 Cynllun Wrth Gefn

Mae'r Cynllun Busnes fel y'i disgrifir yma yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi digon o arian o amrywiaeth o ffynonellau yn llwyddiannus.

Os nad ydynt, caiff y got ei thorri yn ôl y brethyn, a bydd rhannau unigol o'r datblygiad yn cael eu rhoi o'r neilltu neu'n cael eu gohirio hyd nes y bydd cyllid ar gael. Ar adeg briodol, a chyn mynd i wariant mawr, (heibio a thu hwnt i brynu'r safle ei hun), bydd cynllun terfynol, yn seiliedig ar y cyllid sydd wedi'i sicrhau, yn cael ei gyflwyno i'r aelodau ei gymeradwyo.

6.4 Amserlen

Rydym yn amcangyfrif bod y llinell amser ar gyfer y prosiect hwn fel a ganlyn:

	Cyfnod	Dyddiad
1	Cyfarfod Cyhoeddus	09-Chwefror-21
2	Lansio Holiadur Cymunedol	Chwefror-21
3	Prisio ac arolwg cyflwr	Chwefror-21
4	Sicrhau arian prynu drwy fenthyciadau tymor byr	Chwefror-21
5	Sefydlu a chofrestru Cymdeithas Budd Cymunedol	Mawrth-21
6	Agor cyfrif banc	Mawrth-21
7	Cyflwyno cynnig a dechrau'r broses drawsgludo	Mawrth-21
8	Cyfarfod cyhoeddus - canfyddiadau holiaduron a llunio gweledigaeth	09-Mawrth-21
9	Datblygu cynllun busnes	Mawrth-21
10	Datblygu cytundebau benthycia	Mawrth-21
11	Datblygu cynnig cyfranddaliadau	Mawrth-21
12	Ffurio Pwyllgor Rheoli	Mawrth-21
13	Lansio Cynllun Busnes a Chynnig Cyfranddaliadau	Ebrill-21
14	Dechrau codi arian - cyfranddaliadau a rhoddion	Ebrill-21
15	Ceisiadau am gyllid grant ar gyfer ffioedd pensaer a syrfêwr meintiau	Ebrill-21
16	Comisiynu pensaer a syrfêwr meintiau i nodi opsiynau a chostau	Ebrill/Mai 21
17	Cyflwyno cais i Gronfa Datblygu Asedau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Mai 2021
18	Gwerthiant wedi'i gwblhau	Mehefin-21
19	Paratoi i agor yr ardd i'r gymuned - gweithgareddau codi arian	Mehefin-21
20	Cyfarfod cyhoeddus i drafod y cynigion dylunio	Mehefin-21
21	Datblygu cynnig dylunio terfynol a chostau	Gorffennaf-21
22	Diwygio'r cynllun busnes a'r trefniadau gweithredol i adlewyrchu'r cynlluniau pensaernïol terfynol	Gorffennaf-21
23	Cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu a cheisiadau CADW os oes angen	Gorffennaf-21
24	Ceisiadau grant ar gyfer gwaith cyfalaf a chronfeydd refeniw	Medi-21
25	Mynd allan i dendr - gwaith cyfalaf	Medi-21
26	Dechrau ar y gwaith cyfalaf	Ionawr-22
27	Agor Ty'n Llan i'r gymuned ac i ymwelwyr	2022

7. Y Cynnig Busnes

7.1 Model Busnes

Ein prif nod yw cyfoethogi bywydau drwy ddod â phobl at ei gilydd. Mae hyn yn golygu uchafu'r cyfleoedd a'r rhesymau dros ddod i Ty'n Llan. Gwneud hynny'n llwyddiannus yw'r hyn a fydd yn galluogi'r fenter i lwyddo fel busnes.

Ein cynllun yw codi digon o arian i ganiatáu ailddatblygu'r safle presennol i gynnwys y canlynol:

- Adnewyddu ac ailfodelu'r tu mewn yn llwyr, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf cynhyrchiol o'r gofod
- Estyniad yn y cefn gyda ffenestri'n edrych i'r de tuag at yr Eifl, i'w defnyddio'n bennaf fel man bwyta a chaffi
- Tair ystafell wely *en-suite* gyda chegin fach ar y llawr cyntaf, gyda phedwerydd wedi'i lleoli mewn adeilad allanol ar y llawr gwaelod
- Ystafell amlbwrpas sydd ar gael i'w llogi ar gyfradd economaidd gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat
- Gardd gwrw ddeniadol sy'n croesawu teuluoedd gyda chegin awyr agored
- Ardal barcio newydd wedi ei tharmacio gyda man parcio anabl a phwynt gwefru cerbydau trydan

Mae ein ffynonellau ariannu posibl yn cynnwys cyfuniad o werthu cyfranddaliadau, denu grantiau (gweler **Atodiad 1**), benthyca, a gweithgareddau eraill i godi arian.

Mae'r Cynllun Busnes fel y'i disgrifir yma yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi digon o arian o amrywiaeth o ffynonellau yn llwyddiannus.

Pe digwydd bod yr incwm ariannu yn fach iawn, mae'r Pwyllgor Rheoli yn hyderus, ac mae wedi modelu senario o'r fath, y byddai gwaith atgyweirio sylfaenol ac ailaddurno'r safle fel y mae, wedi ei wneud a'i staffio'n bennaf gan wirfoddolwyr, yn caniatáu i'r dafarn ailagor. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynrychioli hyd a lled gweledigaeth ac uchelgais Menter Ty'n Llan. Dylid ei ystyried fel dim mwy na chynllun wrth gefn.

Mae'r model ariannol tair blynedd, ynghyd â rhagolygon llif arian i'w weld yn **Atodiad 4**. Dyma'r rhagolygon masnachu ariannol ar gyfer y tair blynedd lawn gyntaf (£):

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Incwm	£304,891	£334,397	£359,903
Gwariant	£287,859	£301,241	£321,028
Elw / (Colled) ac eithrio dibrisiant	£17,032	£33,156	£38,875

7.2 Amseriad

Tybir bod Blwyddyn 1 yn dechrau ar 1 Ebrill 2023. Cyn y flwyddyn gyfan bydd cyfnod o agor yn raddol dros 6 mis pan gedwir costau staff cyn ised â phosibl, yn benodol drwy ohirio penodi Rheolwr nes bod patrymau masnachu wedi'u hen sefydlu. Bydd y cyfnod hwn hefyd yn caniatáu rhywfaint o arbrofi gydag oriau agor a bwydlenni er mwyn gweld beth yw ymateb y defnyddwyr. Y gobaith yw y bydd modd darparu rhywfaint o fwyd a diod yn yr ardd yn ystod haf 2021 a 2022, os bydd y gwaith adeiladu'n caniatáu, yn y bôn fel ymarfer i feithrin ymdeimlad o dîm a gwella morâl.

7.3 Tybiaethau Allweddol

Mae ffigurau trosiant bwyd a diod wedi eu cyfrifo ar sail modelu manwl, a nodir yr amrywiol elfennau. Yna, gwnaed cymariaethau ag (a) *The British Beer and Pub Association 2019 Guide*, gan gyfeirio at eu model 'Rural Pub with Character'; a (b) modelau busnes tafarndai cymunedol eraill mewn ardaloedd tebyg yng nghefn gwlad a ddarparwyd gan Sefydliad Plunkett. Darparwyd cyngor hefyd gan arbenigwyr drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru. Yn olaf, cafwyd cyngor uniongyrchol mewn perthynas â ffiniau elw, prisiau, trosiant, oriau agor a chostau staffio gan dafarn bentref sefydledig ym Maentwrog, Gwynedd, a chan dafarn/caffi llwyddiannus yng Nghaernarfon. Roedd y ddau yn dangos bod ein tybiaethau'n rhesymol ac, os rhywbeth, yn geidwadol.

Bydd y pedair ystafell wely, a fydd yn cael eu targedu'n bennaf at farchnad wyliau Eryri, yn hunangynhwysol, gan ganiatáu mynediad yn annibynnol ar y dafarn, gan osgoi'r rheidrwydd i gael personél yn aros y nos a darparu gwasanaeth brecwast. Mae'r cyfraddau'n cyd-fynd â'r rhai a hysbysebir yn yr ardal, ac mae'r defnydd tybiedig yn amrywio rhwng 25% ym misoedd y gaeaf a 65% yn yr haf. Tybir y bydd yr holl archebion yn cael eu gwneud drwy asiantaeth deithio ar-lein, sy'n codi 15% o gomisiwn.

Bwriedir i'r ystafell ddigwyddiadau amlbwrpas gael ei llogi yn ôl yr awr neu fesul diwrnod gan gymdeithasau lleol ond y bydd hefyd ar gael i gynnal digwyddiadau a dathliadau preifat.

7.4 Staffio

Yn dilyn y cyfnod o 'agor fesul cam', penodir rheolwr llawn amser ar gyfradd o £30,000, yn cynnwys holl gostau cyflogaeth, a'r rheolwr fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r gweithrediadau bwyd a diod o ddydd i ddydd, ac archebion am yr ystafelloedd gwely a'r ystafell ddigwyddiadau. Ystyrir talu bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Bydd y rheolwr yn gweithredu fel rheolwr llinell i'r holl staff cyflogedig a bydd ganddo/ganddi rôl hefyd yn goruchwylio gwirfoddolwyr. Bydd yn darparu adroddiadau misol i'r Is-bwyllgor Busnes a bydd yn adrodd, o ddydd i ddydd, i aelod penodol o'r Pwyllgor Rheoli a fydd yn gweithredu fel rheolwr llinell. Bydd yr Is-bwyllgor Busnes yn trafod yr adroddiadau hyn ac yn rhoi crynodebau a chyngor i'r Pwyllgor Rheoli.

Mae'r model busnes yn darparu dadansoddiad manwl fesul awr o'r staff eraill y bydd eu hangen i gynnal y gwasanaethau sy'n cael eu disgrifio. At ddibenion y cynllun hwn, tybir bod yr oriau hyn i gyd yn cael eu darparu gan staff cyflogedig, rhai parhaol a rhai dros dro, er bod y cyfle i wirfoddoli yn cynnig arbedion o dan y penawdau hyn o bosibl.

Un o agweddau unigryw'r cynllun yw'r bwriad i benodi Swyddog Datblygu gyda chyllid grant i oruchwylio'r gwaith o gyflawni amcan ehangach y Gymdeithas o sicrhau'r cyfranogiad, datblygu sgiliau a gwirfoddoli, i'r graddau mwyaf posibl. Bydd y Swyddog Datblygu hefyd yn canolbwyntio ar y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg, ymgysylltu â'r gymuned, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd, creu cysylltiadau â rhanddeiliaid amrywiol, gweithgareddau cyfathrebu a marchnata a gwneud ceisiadau am grantiau i ariannu unrhyw waith datblygu pellach. Bydd rôl y Swyddog Datblygu yn sicrhau bod y cyfleuster yn cyrraedd ei lawn botensial a bod Menter Ty'n Llan yn cyflawni ei chenhadaeth gymdeithasol.

7.5 Adloniant

Mae £3000 y flwyddyn wedi ei neilltuo ar hyn o bryd i ddarparu adloniant – gan ddangos cost net o £250 y mis. Gellid dadlau y telir am gostau adloniant o'r fath drwy werthiant tocynnau, felly swm wrth gefn yw'r ddarpariaeth hon, ond mae'n darparu sylfaen i'n nod craidd o ddod â phobl at ei gilydd.

8. Marchnata a Hyrwyddo

Bydd marchnata rhagweithiol yn hanfodol i lwyddiant y prosiect. Wrth i ni geisio marchnata ein cynnyrch a'n gwasanaeth, byddwn yn cael ein harwain gan gymysgedd o dulliau marchnata sefydledig. Dyma amlinellu pob un ohonynt mewn perthynas â Thy'n Llan.

8.1 Cynnyrch

Mae cymysgedd penodol o gynhyrchion yn yr achos hwn; fodd bynnag, bydd pob cynnyrch yn cael ei farchnata dan brif frand Ty'n Llan a'i farchnadoedd targed amrywiol. Bydd i bob cynnyrch ddull gwahanol o'i hyrwyddo, ac edrychir ar hynny yn yr adran hyrwyddo.

Y 'cynnyrch' cyntaf i ganolbwyntio arno, wrth gwrs, yw'r Cynnig Cyfranddaliadau. Byddwn yn defnyddio'r dulliau hyrwyddo a amlygir yn y ddogfen i hyrwyddo'r Cynnig Cyfranddaliadau i ystod eang o fuddsoddwyr posibl (gweler paragraff 8.9 isod am drafodaeth fanylach ynglŷn â strategaeth farchnata'r Cynnig Cyfranddaliadau). Neges gyffredinol yr ymgyrch hon fydd achub ein tafarn a chreu tafarn gymunedol. Bydd buddsoddwyr yn cael eu targedu'n bennaf drwy ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg ledled Cymru, a thu hwnt drwy'r rhwydwaith Tafarndai Cymunedol.

Unwaith y bydd Ty'n Llan ar agor, bydd cymysgedd y cynnyrch yn cynnwys bwyd, diod, llety a chyfleusterau cymunedol. Ni phenderfynwyd eto ar union natur y pethau hyn.

8.2 Pris

Nid yw ein strategaeth brisio ar gyfer gwahanol gynigion cynnyrch Ty'n Llan wedi'i chwblhau eto; fodd bynnag, mae pob cynnyrch a'i bris yn cyfrannu at ein rhagamcanion incwm.

8.3 Lle

Yn nhermau'r cynllun marchnata, y lle yw'r lleoliad lle dosbarthir y cynnyrch, sef yn yr achos hwn, Ty'n Llan.

Bydd addurniad mewnol a delwedd gyffredinol yr adeilad yn cael effaith ar ei hyrwyddo ac ar ein strategaeth brisio.

8.4 Hyrwyddo

Mae'r elfen hon o'r cynllun yn edrych ar sut y bydd cynhyrchion a gwasanaethau Ty'n Llan yn cael eu cyfleu.

Yn draddodiadol, gelwir y Gymysgedd o Gyfathrebiadau Marchnata yn Gymysgedd Hyrwyddo. Gellir categoreiddio'r 'gymysgedd' yn 4 dull:

- Hysbysebu
- Hybu Gwerthiant
- Cysylltiadau Cyhoeddus
- Marchnata Uniongyrchol

a gallwn ychwanegu pumed dull atynt,

- Cyfathrebu Rhyngweithiol

Mae'n bwysig nodi yma pa mor bwerus yw Cyfathrebu Marchnata cydgysylltiedig; bydd pob dull yn cael ei ddefnyddio mewn modd cydlynol, gan gyfleu'r un negeseuon i'r un segmentau o'r farchnad ac anelu at yr un nodau; mae'r dulliau'n gweithio'n fwy effeithiol yn y modd yma.

8.4.1 Hysbysebu

Mae amrywiaeth enfawr o gyfryngau hysbysebu print ar gael ledled y Deyrnas Unedig; fodd bynnag, maent yn ddrud iawn a chymharol wael yw eu heffaith a'r adenillion ar fuddsoddiad marchnata.

Felly, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar hysbysebu ar y we i gyfleu gwybodaeth am gynnyrch Ty'n Llan. Gallai hyn fod ar ffurf cyfres o ymgyrchoedd "Google Adword" a fyddai'n caniatáu targedu diddordeb, oedrannau, rhyw a chyfesurynnau daearyddol penodol yn uniongyrchol, yn ogystal â rhoi rheolaeth lwyr dros wariant ac effeithiolrwydd. Gallai hefyd fod ar ffurf nifer o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r presenoldeb presennol y we yn gweithredu fel "tudalennau glanio" ar gyfer ein marchnata ar-lein. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran cyfathrebu rhyngweithiol (paragraff 8.4.5).

8.4.2 Hybu Gwerthiant

Er mai math o gyfathrebu amheronol yw hwn, mae ei allu i ychwanegu gwerth a hybu gwerthiant yn y dyfodol yn gryf. Mae'r adran hon yn amlwg yn gysylltiedig â'r adran pris, ac mae angen ystyried yn ofalus sut y caiff ein cynnyrch, ein gwasanaethau a'n cyfleoedd nawdd eu prisio a'u hyrwyddo.

Gall y math hwn o ddull fod yn amhrisiadwy wrth hyrwyddo cynigion bwyd ganol wythnos neu gynigion llety yn neupen y tymor gwyliau.

Gall deunyddiau marchnata printiedig megis llyfrynnau a thafleuni hefyd fod yn ddulliau marchnata effeithiol ar gyfer Ty'n Llan, yn bennaf fel rhan o strategaeth 'cyrchfan' ar gyfer ymwelwyr â'r ardal.

Gall cyfathrebu rhyngweithiol fod yn hanfodol wrth hyrwyddo bwyd a llety i farchnad leol a chenedlaethol; fodd bynnag, mae deunyddiau printiedig hefyd yn arf effeithiol iawn i hyrwyddo ein cynnig bwyd i westeion sy'n aros gyda darparwyr llety eraill.

8.4.3 Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau

Bydd datganiadau cyffredinol i'r wasg a straeon diddorol am Ty'n Llan yn cynnal y proffil. Mae erthyglau yn y cyfryngau darlledu, y cyfryngau print ac ar-lein yn ffordd ddibynadwy o gyfathrebu â'r farchnad.

Byddwn yn meithrin ac yn cynnal perthynas ag aelodau amrywiol o'r wasg; mae hon yn ffordd sylfaenol, ond hanfodol o gael sylw. Bydd datganiadau diddorol a difyr yn cynnal diddordeb y wasg yn y cynnig sydd ar gael.

8.4.4 Marchnata Uniongyrchol

Mae dwy ffordd o fynd ati i farchnata'n uniongyrchol: un fyddai defnyddio trydydd parti i ddosbarthu ein cyfathrebiadau marchnata, a'r llall fyddai cael cronfa ddata o unigolion a/neu grwpiau sydd wedi 'optio i mewn'.

Byddai dosbarthu drwy drydydd parti yn golygu llunio llenyddiaeth brintiedig i'w anfon yn uniongyrchol drwy'r post, neu fewnosod copi mewn cyhoeddiadau penodol. Byddai hyn yn cyfathrebu'n uniongyrchol â chyfran fawr o'n marchnad darged; fodd bynnag gall cyfradd llwyddiant arferol ymgyrchoedd o'r fath fod yn isel (<5%).

Adeiladu cronfa ddata o sefydliadau a phobl sy'n debygol o ymgysylltu yw'r dasg gyntaf y mae angen ei chwblhau, ac mae Menter Ty'n Llan wedi ychwanegu cyfleuster tanysgrifio i'r wefan er mwyn casglu data 'optio i mewn' a gedwir yn ein cyfrif MailChimp. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r bobl yn y gronfa ddata hon gan anfon y newyddion diweddaraf atynt a chynigion yn seiliedig ar bob 'tag' yn y gronfa ddata, boed nhw yn lleol, yn ymwelwyr, yn aelodau ac ati.

8.4.5 Cyfathrebu Rhyngweithiol

Y rhyngrwyd yw'r dull marchnata mwyaf cost effeithiol wrth geisio hyrwyddo cynnyrch i farchnad sydd gryn bellter i ffwrdd.

Rydym wedi adeiladu gwefan (www.tynllan.cymru) ac mae'n hanfodol ein bod yn optimeiddio'r wefan i ymddangos yn defnyddio termau chwilio amrywiol, e.e. bwyd yn Llandwrog, llety yn Llandwrog, ac ati.

Mae'n debyg mai'r cyfrwng mwyaf rhyngweithiol y gellir ei ddatblygu ar hyn o bryd fyddai safleoedd Ty'n Llan ar y cyfryngau cymdeithasol - Facebook a Twitter yn bennaf, ond hefyd Instagram unwaith y byddwn yn dechrau gweithio ar yr adeilad ac unwaith y bydd y busnes yn weithredol. Mae'r llwyfannau hyn yn cynnig cyfle i frandiau siarad â'u cwsmeriaid yn ddyddiol, i ymgysylltu â nhw, i ateb eu hymholiadau. Maent, yn y bôn, yn ddulliau marchnata 'am ddim' pan gânt eu defnyddio'n iawn.

Wrth i ni edrych ar sut i hyrwyddo'r llety a gynigir yn Ty'n Llan, bydd angen i ni gofrestru gyda'r amrywiol asiantaethau teithio ar-lein sydd ar gael i ni. Y prif rai fyddai booking.com ac airbnb, a fyddai, ill dau, yn codi comisiwn i hyrwyddo ein cyfleusterau. Fodd bynnag, oherwydd maint cyllidebau marchnata ac ymwybyddiaeth brand y sefydliadau hyn, byddai'n hanfodol cael presenoldeb arnynt.

8.5 Pobl

Mae'r bobl sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun hwn yn cynnwys pawb sy'n gysylltiedig â Ty'n Llan.

Mae unrhyw strategaeth farchnata a chynllun gweithredu ddim ond cyn gryfed â'r sawl sy'n eu rhoi ar waith. Mae gan Bwyllgor Rheoli Menter Ty'n Llan gymysgedd dda o arbenigedd a phrofiad, ac a chaiff yr arbenigedd a'r profiad hwnnw ei ffocysu ar y prosiect penodol hwn ac ar gefnogi staff a gwirfoddolwyr i ddarparu profiad o'r radd flaenaf i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

8.6 Tystiolaeth Gorfforol

Does neb yn well am werthu cynnyrch na gwasanaeth na rhywun sydd wedi profi'r gwasanaeth hwnnw, ac mae profiadau a barn cyfoedion yn rhywbeth sy'n gynyddol gyffredin a phwerau yn y maes marchnata. Ein nod fyddai defnyddio'r profiadau hyn fel rhan o'r gwaith hyrwyddo ac annog pobl i bostio adolygiadau cadarnhaol ar amrywiol gyfrifon y cyfryngau cymdeithasol ac ar TripAdvisor. Beth bynnag yw barn unrhyw un am y llwyfannau hyn, cânt eu defnyddio'n helaeth ac maent yn ddulliau marchnata pwerau pan fydd rhywun wedi cael profiad cadarnhaol – mae angen i ni sicrhau bod profiad pawb yn un cadarnhaol a dyma pam mae ein 'pobl' mor bwysig.

Mae'r cysyniad o 'Gynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr' yn rhywbeth y mae sefydliadau twristiaeth wedi'i mynd i'r afael ag ef yn llwyddiannus, a byddai cynnwys o'r fath yn cael ei gyfleu drwy wefan Ty'n Llan trwy rannu cynnwys deinamig, yn ogystal â phostio fideos/lluniau ar ein llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol.

8.7 Proses

Rhaid i'r broses drafodol ganolbwyntio ar y cwsmer ar bob pwynt yn ystod y sianel werthu. Rhaid i'r wefan fod yn groesawgar, mae angen i'r staff fod yn groesawgar ac yn wybodus, ac mae angen i'n hymateb fel sefydliad fod yn rhagweithiol ac yn gefnogol.

Byddwn yn sicrhau bod systemau marchnata ar waith i wneud y broses mor hawdd â phosibl i'r rhai sy'n cyflawni ein hymgyrchoedd amrywiol wrth hyrwyddo menter Ty'n Llan.

Yn anad dim, drwy gydol y broses farchnata a hyrwyddo, bydd yn hanfodol ein bod yn monitro, rheoli a gwerthuso pob ymgyrch i ganfod y cyfraddau ymateb a llwyddiant pob un. Dim ond drwy wneud hyn y gallwn wybod beth yw'r adenillion ar fuddsoddiad.

8.8 Marchnata'r Cynnig Cyfranddaliadau

Bydd y Cynnig Cyfranddaliadau'n cael ei hyrwyddo'n defnyddio nifer o dactegau, gan gynnwys llunio prospectws a fydd yn fersiwn byrrach a mwy bachog o'r Cynnig Cyfranddaliadau. Ochr yn ochr â hyn defnyddir nifer o gymhorthion marchnata gweledol megis cynnwys ffotograffig a chynnwys fideo i'w defnyddio ar ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.

Caiff nifer o fideos eu creu a fydd yn cynnwys fersiwn llawn (hyd at 3 munud), a nifer o fersiynau byrrach (hyd at 30 eiliad), gyda negeseuon a phroffiliau demograffig amrywiol.

Rydym wedi bod yn casglu data'r sawl sydd â diddordeb yn y fenter ers sefydlu gwefan y Gymdeithas Budd Cymunedol gan fod modd tanysgrifio i'r safle, ac felly byddwn hefyd yn gweithredu ymgyrchoedd e-farchnata ar gyfer y Cynnig Cyfranddaliadau. Rydym hefyd yn bwriadu recriwtio 'llysgenhaddon' Ty'n Llan mewn gwahanol rannau o Gymru, a dosbarthu taflenni i'r sawl nad oes ganddynt fynediad at lwyfannau digidol, neu nad ydynt yn eu defnyddio.

Mae gennym aelodau o'r gymuned sy'n gweithio yn y cyfryngau Cymraeg ac mae nifer o gysylltiadau eraill yn y wasg wedi eu meithrin dros y misoedd diwethaf. Byddwn yn defnyddio'r cysylltiadau hyn i sicrhau llif cyson o sylw yn y wasg wrth i ni weithredu'r ymgyrch.

9. Llywodraethu

9.1 Pwyllgor Rheoli

Mae Menter Ty'n Llan wedi'i chofrestru o dan y gyfraith fel cymdeithas budd cymunedol gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'r Gymdeithas yn bodoli er mwyn cynnal busnes er budd y gymuned, ac mae'n ymrwymedig i wneud y pethau canlynol:

- masnachu er budd y gymuned, ac nid er budd preifat unrhyw un
- cadw elw a defnyddio elw i hyrwyddo Diben y Gymdeithas

Mae Menter Ty'n Llan yn ddarostyngedig i Reolau'r sefydliad a bydd y Pwyllgor Rheoli yn rheoli materion y Gymdeithas. Yn ystod cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021 ffurfiwyd y Pwyllgor Rheoli Cychwynnol o blith y rhai a nododd ddi-ddordeb mewn bod yn aelodau. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 14 o bobl, ac mae'r aelodau fel a ganlyn:

Caryl Elin Lewis (Cadeirydd) – Perchennog-gyfarwyddwr Cwmni CELyn Cyf; Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandwrog a Phwyllgor Pentref Llandwrog ac aelod sefydlu Merched Mentrus Môn a Gwynedd. Cyn hynny - swyddi uwch gyda Chyngor Gwynedd; Cyfarwyddwr Mudiad Meithrin Cymru; ymgynghorydd cyswllt i'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ac Iechyd Meddwl Cymru.

Catrin Huws (Is-gadeirydd) - Rheolwr cynhyrchu rhaglenni Cymraeg a chynnwys ar-lein gyda'r BBC. Yn gyfrifol am gydlyn sawl agwedd ar brosiectau darlledu cenedlaethol.

Grant Peisley (Ysgrifennydd) -Cyfarwyddwr sefydlu Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Mudiad Adferiad Môn a Gwynedd (AGRO), YnNi Teg, Ynni Newydd, Ynni Lleu ac YnNi Llyn; Cyfarwyddwr Ynni Cymunedol Cymru; Ymgynghorydd ar ran Sefydliad Plunkett.

Wyn Roberts (Cyfarwyddwr Marchnata) – Perchennog-gyfarwyddwr Marchnata AQUA Cyf sy'n arbenigo mewn marchnata digidol a'r sector twristiaeth. Cyfarwyddwr Galeri Caernarfon Cyf, Hwb Eryri Cyf, Datblygiadau Egni Gwledig (DEG) a Cooliture Cyf.

Huw Jones (Trysorydd) - Cadeirydd Portmeirion Cyf ac Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn. Cyn Gadeirydd a Phrif Weithredwr S4C, cyd-sylfaenydd Sain, Barcud a Teledu'r Tir Glas ac Ymddiriedolwr RSPB a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

Carys Aaron - Ymddiriedolwr 'Sistema Cymru - Codi'r To'; cyfarwyddwr Adra Lodge Cyf hostel a bwyty. Cyn Reolwr Busnes a chyfarwyddwr Ffilmiau'r Nant Cyf; darlithydd y gyfraith Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor. Cyn ysgrifennydd Galeri Caernarfon Cyf a Crochan Celf; cyn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen.

Angharad Gwyn - Perchennog-gyfarwyddwr cwmni manwerthu Cymreig Adra; Arweinydd a chyd-sylfaenydd Clwb Gwawr Llandwrog; cyn gadeirydd Cyfeillion yr Ysgol, a Grŵp Ti a Fi y pentref; aelod o Gyngor Coleg Glynllifon a model rôl busnes gyda Syniadau Mawr Cymru.

Dylan Wyn Herbert - Pennaeth Cynllunio Gwaith ac Adnoddau SP Energy Network; Cynghorydd Cymuned ym Mhenygroes; aelod - Pwyllgor Clwb Rygbi Caernarfon, Cymdeithas Dyfarnwyr Undeb Rygbi Gogledd Cymru, Grŵp Cyflogwyr Sgiliau Digidol - Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru; Llysgennad STEM.

Ian Kenrick Hughes - Rheolwr Busnes Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, wedi gweithio mewn llywodraeth leol am dros 35 mlynedd. Cyn-aelod o Lywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Llandwrog.

Bethan Mary Jones - Actores broffesiynol sydd wedi byw yn Llandwrog ers 25 mlynedd ac wedi magu 4 o blant. Cyn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandwrog. Yn berchen ar fusnes llety hunanarlwyo.

Sion Huw Jones - Athro yn Ysgol Glan Clwyd; cydberchennog Hairline Inc GC. Wedi byw yn y pentref ar hyd ei oes ac wedi gweld Ty'n Llan yn ffynnu fel plentyn ac oedolyn. Yn angerddol am weld Ty'n Llan yn rhan ganolog o fywyd y pentref unwaith eto.

Alun Prytherch - Prif Ddadansoddwr Busnes VISA, yn diffinio sut y bydd cenhedlaeth nesaf systemau taliadau'r cwmni yn gweithio. Cyn hynny - Cynghorydd Busnes i Barclays, Bank of America, Lloyds a'r Bathdy Brenhinol; Ystadegydd Manwerthu a Rhagolygydd i Sainsbury's.

Iwan Williams - Pennaeth Cerdd Ysgol Glan y Môr Pwllheli; beirniad ac arweinydd corawl. Yn angerddol am ddiwylliant Cymru ac ysbryd cymunedol.

Sioned Williams – Pennaeth Adran Datblygu'r Economi a'r Gymuned, Cyngor Gwynedd, sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd, twristiaeth, digwyddiadau, rhaglenni adfywio, sgiliau a chyflogaeth. Cynllunydd tref cymwysedig, yn cefnogi mentrau cymdeithasol ers 25 mlynedd. Aelod o wahanol fyrdau rheoli; rolau cynghori gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Bwrdd Menter Eryri; cyn gadeirydd Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru; Cadeirydd Chwaraeon Gogledd Cymru.

9.2 Grwpiau Thematig

Cefnogir y Pwyllgor Rheoli gan chwe is-bwyllgor sy'n gyfrifol am wahanol feysydd gweithgarwch a gwahanol arbenigeddau. Yn eu plith mae:

- Gweithrediadau Busnes
- Marchnata, Brandio a Chyfathrebu

- Ailddatblygu a Chynnal a Chadw'r Adeilad
- Bwyd a Diod
- Yr Ardal Allanol a'r Ardd
- Gweithgarwch Cymunedol ac Adloniant

Bydd y grwpiau yn cynorthwyo'r Pwyllgor Rheoli i gyflawni ei swyddogaethau, yn sicrhau bod Ty'n Llan yn cael ei ddatblygu a'i redeg yn effeithiol ac yn cyflawni tasgau penodol ar ei ran.

10. Rheoli Risg

10.1 Dadansoddiad SWOT

Mae'r Dadansoddiad SWOT hwn yn nodi'r Cryfderau, y Gwendidau, y Cyfleoedd, a'r Bygythiadau sy'n berthnasol i'r prosiect. Gellir gweld cofrestr risg manylach arall yn **Atodiad 5**.

Cryfderau

1. Ewyllys dda hanesyddol - Roedd gan Ty'n Llan ar un adeg sylfaen cwsmeriaid sefydlog ac roedd yn dafarn boblogaidd ymysg trigolion y pentrefi cyfagos
2. Diffyg cystadleuaeth gan dafarndai, bwytai a gwestai o fewn radiws o 5 milltir
3. Gofod awyr agored – y gallu i gynllunio a defnyddio ardaloedd allanol i uchafu defnydd ac incwm yn oes estynedig Covid-19
4. Dangoswyd llawer o gefnogaeth ac ewyllys da pan wnaed apêl am fenthyciadau dros dro, a chafwyd ymateb da i'r holiadur a'r cyfarfodydd cyhoeddus
5. Dim cyfleusterau cymunedol eraill yn y pentref
6. Prin yw trafndiaeth gyhoeddus i'r pentref ac ohono
7. Adeilad rhestredig Gradd II deniadol
8. Lleoliad canolog ardderchog, o fewn pellter cerdded hawdd i bob pentrefwr
9. Yn agos i'r traeth
10. Ardal boblogaidd i gerddwyr a beicwyr
11. Mae bod yn fenter gymunedol yn golygu y bydd gan gyfranddalwyr ragor o gymhelliant i ddefnyddio a chefnogi'r cyfleuster
12. Fel Cymdeithas Budd Cymunedol bydd y fenter yn gallu gwneud ceisiadau am arian grant
13. Llwyddiant wrth gynnwys y pentref mewn gweithgareddau yn y gorffennol
14. Y Gymdeithas fydd yn berchen ar y rhydd-ddaliad ac ni fydd yn gysylltiedig ag unrhyw fragdai; felly byddwn yn gallu negodi'r bargeinion gorau o ran y cyflenwad o fwyd a diod
15. Bydd y Gymdeithas yn penodi rheolwr profiadol i oruchwylio'r gwaith o reoli'r cyfleuster bob dydd.

Gwendidau

1. Mae Ty'n Llan wedi bod ar gau ers 2017 ac mae'r cyflwr wedi dirywio byth ers hynny
2. Roedd y sylfaen cwsmeriaid wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf cyn i'r dafarn gau ei drysau
3. Mae costau adnewyddu yn uchel oherwydd gofynion/cyfyngiadau statws rhestredig
4. Prin yw trafndiaeth gyhoeddus i'r pentref ac ohono

Cyfleoedd

1. Ail-feithrin enw da
2. Cwrdd â'r galw am fwyd da yn yr ardal
3. Darparu cyfleusterau cymunedol ychwanegol - nid oes unrhyw gyfleusterau na mannau cyfarfod eraill yn y pentref
4. Datblygu sylfaen cwsmeriaid newydd gan gynnwys gweithwyr cartref, busnesau cyfagos a phobl sy'n chwilio am gwrw lleol a bwyd o ansawdd da o ffynonellau lleol.
5. Denu cwsmeriaid o'r tu hwnt i'r pentref
6. Cryfhau'r sylfaen cwsmeriaid a theyrngarwch drwy adeiladu ar agwedd gymunedol y dafarn
7. Cynnwys cwsmeriaid a'r gymuned ehangach drwy drefnu digwyddiadau, sgiliau ymarferol, gwirfoddoli ac ati
8. Galluogi'r gymuned leol a chyfranddalwyr ehangach i deimlo'n rhan o rywbeth hanesyddol a buddiol i'r pentref
9. Gwella'r safle a'r gwasanaethau i ysgogi rhagor o ddefnydd gan y gymuned
10. Gweithio i wella pa mor atyniadol yw'r dafarn, drwy gymorth ymarferol ac adborth adeiladol
11. Penodi rheolwr a staff profiadol i wneud y dafarn yn llwyddiannus, i ddarparu gwasanaeth da i gwsmeriaid ac i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n dda gan y gymuned
12. Manteisio ar y cronfeydd cyllid grant newydd sydd ar gael i gefnogi adferiad cymunedau yn dilyn Covid-19 ac i ddatblygu asedau sy'n eiddo i'r gymuned.

Bygythiadau

1. Diffyg diddordeb yn y cynnig cyfranddaliadau cymunedol
2. Methu ad-dalu benthycwyr
3. Diffyg cyllid digonol ar ôl prynu'r dafarn i gwblhau'r gwaith adnewyddu a datblygu
4. Cyfyngiadau Covid-19 yn parhau am gyfnod hwy, gan effeithio ar ein gallu i fasnachu yn ôl y disgwyl
5. Costau trwsio annisgwyl
6. Gostyngiad mewn cefnogaeth gymunedol, yn gyffredinol ac o ran gwirfoddolwyr
7. Newidiadau mewn ffactorau allanol dros y tair blynedd nesaf – megis dirywiad economaidd, newidiadau ym mholisiau cyllidwyr grantiau, cystadleuaeth annisgwyl, ac ati
8. Methiant i benodi a dal gafael ar bersonél allweddol â chymwysterau addas, yn enwedig y rheolwr a/neu'r cogydd
9. Methu â chyflawni a chynnal cydbwysedd cywir rhwng ansawdd / gwerth / elw.

10.2 Ymateb i'r Risgiau

Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein cryfderau a manteisio ar y cyfleoedd a nodwyd yn ein dadansoddiad SWOT. Byddwn yn ymateb i'r gwendidau a'r bygythiadau drwy gyfrwng y mesurau canlynol:

10.2.1 Denu Busnes

Unwaith y bydd y dafarn yn eiddo i'r gymuned, bydd yr ymrwymiad i ddefnyddio'r dafarn ac i annog teulu a ffrindiau i'w defnyddio yn sylweddol. Mae hyn wedi profi'n wir mewn llawer o dafarndai sy'n eiddo i'r gymuned. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal ymgyrch farchnata/cysylltiadau cyhoeddus wedi'i hanelu at drigolion yr ardaloedd cyfagos ac at ymwelwyr tymhorol.

Bydd darpariaeth gyson o gwrw, gwin a bwyd da, lleol, ac iddo bris cystadleuol, wedi'i baratoi'n ffres yn defnyddio cynhwysion lleol, ynghyd ag oriau agor dibynadwy, yn rhoi sail dda ar gyfer sefydlu enw da'r dafarn, a ddylai wedyn ddenu llif cyson o gwsmeriaid wrth i'r neges fynd ar led, ar lafar, trwy adolygiadau da ar TripAdvisor, mewn adolygiadau o fwytai yn y papurau newydd lleol, ac ati. Bydd cyflwyno digwyddiadau byw rheolaidd, chwaraeon tafarn, clybiau amser cinio, caffi, a gweithgareddau cymunedol o bob math hefyd yn denu cwsmeriaid. At hynny, rydym yn rhagweld galw mawr am ein llety o ansawdd uchel.

10.2.2 Diffyg Arian Grant ar Gyfer Adnewyddu a Chostau Annisgwyl

Mae arolwg cyflwr wedi'i gynnal ac mae ein cynnig i brynu'r dafarn yn adlewyrchu'r cyflwr a'r prisiad presennol a gafwyd. Rydym yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o waith adnewyddu ac atgyweirio er mwyn darparu adeilad o safon. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth lawn, a diwallu anghenion y gymuned a chynyddu hyfywedd y prosiect, rydym yn awyddus i ail-fodelu a datblygu'r adeilad. Rydym yn bwriadu ariannu'r gwaith hwn drwy gymysgedd o gyfranddaliadau cymunedol, codi arian a chyllid grant. Yn seiliedig ar ymholiadau cychwynnol gyda chyllidwyr posibl, rydym yn hyderus bod y prosiect yn bodloni meini prawf rhai cronfeydd grant cyfalaf. Rydym yn nodi risg fach na fydd ein ceisiadau am grant efallai'n llwyddiannus ac rydym yn barod i gwtogi ein cynlluniau ac atgyweirio'r adeilad gyda'r arian sydd ar gael, pe bai angen i ni wneud hynny. Mae ein Pwyllgor Rheoli yn cynnwys aelodau sydd â phrofiad o wneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau a bydd hyn yn fantais. Gellir lliniaru effaith ariannol gorfod gwneud atgyweiriadau nas rhagwelwyd, i ryw raddau, drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr o'r gymuned a thrwy gynnal gweithgareddau codi arian. Mae llawer wedi nodi (wrth ymateb i'r holiadur) y byddent yn fodlon rhoi eu hamser a'u sgiliau mewn da i helpu i atgyweirio'r adeilad.

10.2.3 Benthyciadau Heb eu Talu a Chyfranddaliwyr yn Tynnu'n Ôl

Byddwn yn prynu'r adeilad gyda'r arian a godir o werthu cyfranddaliadau cymunedol a benthyciadau dros dro. Mae rhoddwyr benthyg wedi cyflwyno ffurflen addewid ffurfiol yn cadarnhau eu cynnig a byddant yn derbyn contract manylach unwaith y byddwn yn gofyn am gael tynnu'r arian i lawr. Gan

ein bod wedi codi mwy mewn addewidion benthyciad nag sydd ei angen arnom, byddwn yn cwtdgi pob addewid i adlewyrchu'r arian sydd ei angen. Mae perygl bach na fydd gan rai yr arian yn ei le pan fyddwn yn gofyn amdano neu efallai y bydd rhai wedi newid eu meddwl. Rhagwelwn fod y risg i hyn ddigwydd yn isel; fodd bynnag, pe baem yn wynebu'r sefyllfa hon, mae benthycwyr eraill wedi dangos eu parodrwydd i gynyddu eu benthyciad i ni.

Y bwriad yw y bydd y benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu gyda morgais Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, grantiau o ffynonellau eraill pan fo'r telerau'n caniatáu, gweithgareddau codi arian eraill ac, yn y pen draw, yn sgil masnachu. Mae'r Cytundebau Benthyciad yn darparu ar gyfer y posibilrwydd, drwy gytundeb, o ymestyn y benthyciadau neu amrywio'r telerau ad-dalu, pe na bai'r Gymdeithas yn gallu gwneud yr ad-daliadau ar y dyddiad dyledus.

Mae rheolau'r Gymdeithas yn darparu na all aelodau dynnu eu cyfranddaliadau yn ôl yn ystod tair blynedd gyntaf gweithrediad y busnes, er mwyn caniatáu amser iddo sefydlu ei hun. Ar ôl hynny, bydd yn ofynnol i aelodau roi rhybudd yn unol â'r Rheolau os ydynt yn dymuno tynnu eu cyfranddaliadau'n ôl, a chymeradwyr hynny'n amodol ar sicrhau bod yr arian ar gael ac o gael cadarnhad y Pwyllgor Rheoli. Bydd cronfeydd arian parod wrth gefn yn cael eu cronni lle bo'n bosibl er mwyn galluogi pobl i dynnu cyfranddaliadau yn ôl, yn amodol ar ofynion y busnes. Yn ddelfrydol, bydd cyfranddalwyr presennol neu gyfranddalwyr newydd yn barod i fuddsoddi i wneud yn iawn am gyfranddaliadau sy'n cael eu tynnu'n ôl. Os na ellir gwerthu cyfranddaliadau yn eu lle, yna byddai'r gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio. Er bod rheolau'r Gymdeithas yn mynnu bod pob aelod yn ymrwymo i'w fuddsoddiad am o leiaf dair blynedd, mae rhai amgylchiadau lle mae'r Pwyllgor Rheoli wedi'i awdurdodi i ganiatáu tynnu'n ôl yn gynnar (e.e., marwolaeth a methdaliad). Yn ymarferol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Gymdeithas mewn sefyllfa i ariannu unrhyw dynnu'n ôl cyn Blwyddyn 5. Pan fydd modd ystyried ailagor cyfranddaliadau i'w prynu, bydd y Pwyllgor yn nodi meini prawf a therfyn blynyddol priodol. Gall y Pwyllgor atal pobl rhag tynnu cyfranddaliadau'n ôl yn dibynnu ar fuddiannau hirdymor y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd digonol wrth gefn, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

10.2.4 Nid yw'r Busnes yn Hyfyw

Os nad yw'r busnes, er gwaethaf bod â chynllun busnes cadarn, marchnata egniol a pharhaus, a chefnogaeth yr aelodau a chwsmeriaid eraill, yn datblygu fel y rhagwelwyd, yna byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli ystyried penodi tenant i redeg y dafarn NEU gael ei orfodi i gau'r dafarn, gwerthu'r asedau ac ad-dalu'r buddsoddwyr gwreiddiol, gydag unrhyw asedau gweddilliol i'w defnyddio er budd y gymuned. Mae'n amlwg nad dyma'r canlyniad y byddem yn dymuno ei weld, ac nid yw'n debygol yn ein barn ni, ond dylai'r camau posibl hyn roi rhywfaint o sicrwydd i fuddsoddwyr y gallant, pe bai'r fenter yn aflwyddiannus, adennill rhywfaint neu'r cyfan o'u buddsoddiad.

10.2.5 Cyfyngiadau Covid-19

Rhagwelwn y bydd pryniant y dafarn wedi cwblhau erbyn yr haf. Ar hyn o bryd mae'n anodd rhagweld beth fydd effaith y pandemig ar weithrediad y busnes. Ein blaenoriaeth gychwynnol fydd tacluso'r ardd a sicrhau bod yno ddigon o seddau awyr agored, er mwyn cadw at reoliadau Covid-19. Pe baem yn llwyddiannus yn ein ceisiadau grant ar gyfer y gwaith uwchraddio a datblygu, byddai hyn yn arwain at gyfnod o fod ar gau tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo. Gan ragweld y bydd ein ceisiadau am grant yn llwyddiannus, rydym yn rhagweld y byddwn yn ailagor yr adeilad ar ei newydd wedd yn 2022/2023. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n barhaus ac yn addasu wrth i ni fynd ymlaen i ymateb i sefyllfa'r pandemig. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ba grantiau cymorth busnes y gallem fod yn gymwys i'w cael i'n helpu yn ystod y pandemig.

10.3 Deddf Diogelu Data 2018

Mae'r Gymdeithas yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 a bydd yn defnyddio ac yn prosesu data personol at ddibenion Menter Ty'n Llan Cyf yn unig. Byddwn yn gwneud y pethau canlynol:

- ei ddefnyddio'n deg, yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw
- cadw gwybodaeth bersonol sydd gennym yn ddiogel ac yn gyfoes
- ei ddefnyddio at y dibenion penodol y'i casglwyd ar ei gyfer yn unig
- ei gadw am ddim mwy nag sy'n angenrheidiol

11. Casgliadau

Mae cymuned Llandwrog a'r rhanddeiliaid yn amlwg yn gefnogol iawn i'r cynnig i brynu, cadw a datblygu Ty'n Llan fel menter gymunedol. Mae llawer o dystiolaeth i gefnogi'r angen am ragor o gyfleusterau yn yr ardal i gefnogi pobl gyda'u hiechyd a'u lles ac i helpu i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol ac unigrwydd. Bydd y prosiect hwn hefyd yn adfywio'r ardal, gan greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli a bydd yn darparu cyfleusterau hanfodol i gymuned wledig.

Ni ellir ystyried y cynnig ar ei ben ei hun. Bydd datblygu'r adeilad yn creu rhagor o gapasiti ar gyfer gweithgarwch cymunedol a bydd yn denu rhagor o ymwelwyr i'r ardal. Bydd gweithio gyda chyfleusterau a busnesau lleol eraill yn bwysig, gan sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd ac yn defnyddio dull cydlynol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial i bawb.

Mae'r dyhead y bydd Ty'n Llan yn hunangyllidol yn realistig, ar yr amod bod sylfaen cwsmeriaid sefydlog yn cael ei adeiladu, a bod digon o fuddsoddiad ar y dechrau i sicrhau adeilad o ansawdd uchel sy'n amgylcheddol effeithlon. Bydd sicrhau lefelau staffio priodol a chreu swydd Swyddog Datblygu yn hanfodol i hyrwyddo a marchnata Ty'n Llan yn effeithiol, i barhau i greu cysylltiadau â rhanddeiliaid ac i sicrhau bod yr ased yn parhau'n driw i'w genhadaeth a'i gyfrifoldebau cymdeithasol.

Rydym yn hyderus - cyhyd â bod y gymuned, y cyfranddalwyr a'r rhanddeiliaid yn parhau i gefnogi, a chyhyd ag y gall y prosiect ddarparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen i safon sy'n bodloni disgwyliadau'r gymuned - y bydd Ty'n Llan yn ased busnes ac yn ased cymunedol llewyrchus.

12. Rhestr o Atodiadau

Atodiad 1: Ffynonellau Ariannu Posibl	gweler tudalen 48
Atodiad 2: Adroddiad yr Holiadur Cymunedol	ar gael ar gais
Atodiad 3: Enghreifftiau o Lythyrau Cefnogaeth	gweler tudalen 50
Atodiad 4: Model Ariannol 3 Blynedd a Rhagolwg Llif Arian Parod	gweler yr atodiad
Atodiad 5: Cofrestr Risg	gweler yr atodiad

12.1 Atodiad 1 - Ffynonellau Ariannu Posibl

Cyfranddaliadau Cymunedol

Mae perchnogaeth drwy gyfrwng Cyfranddaliadau Cymunedol yn rhan sylfaenol o'r fenter gyfan gan mai dyma'r modd y bydd y gymuned yn ymwneud ac yn perchnogi'r dafarn. Yn ogystal, dyma sy'n darparu cyllid hanfodol i'r Prosiect ac mae'r rhan fwyaf o roddwyr grant yn gweld hynny fel arwydd angenrheidiol bod y gymuned yn ymrwymedig i'r Prosiect.

Cymorth wrth Ymgeisio am Gyllid Grant

Byddai Swyddog Adfywio Lleol Cyngor Gwynedd yn gallu cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cynigion am gyllid grant. Isod ceir rhai enghreifftiau o ffynonellau ariannu posibl ar gyfer y gwaith o adnewyddu a datblygu'r adeiladau a ffynonellau cyllid refeniw posibl ar gyfer staffio:

- **Cronfa Treftadaeth Bensaernïol Cymru**
Gall y gronfa hon ddarparu cyllid cyfalaf i helpu prosiectau gyda chostau datblygu. Mae amryw o gylchoedd ymgeisio drwy gydol y flwyddyn, gyda thua £80k o gyllid cyfalaf ar gael.
- **Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - Pobl a Lleoedd**
Mae'n cynnig cyllid o rhwng £100,001 a £500,000 i brosiectau lle mae pobl a chymunedau'n cydweithio ac yn defnyddio eu cryfderau i gael effaith gadarnhaol ar y pethau sydd bwysicaf iddynt. Gall 'Pobl a Lleoedd' ariannu costau cyfalaf a refeniw hyd at £500,000, megis offer, costau staff ac adnewyddu. Gall ariannu prosiectau am hyd at bum mlynedd.
- **Llywodraeth Cymru – Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol**
Cynllun grant cyfalaf yw hwn a weithredir gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £250,000. Gellir defnyddio'r grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned ac sy'n cael eu defnyddio'n gyson gan bobl yn y gymuned.
- **Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig**
Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi lansio Cronfa Perchnogaeth Gymunedol newydd gwerth £150 miliwn i sicrhau y gall cymunedau ledled Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon barhau i gefnogi ac elwa ar y cyfleusterau, yr asedau cymunedol a'r amwynderau lleol sydd bwysicaf iddynt. Bydd grwpiau cymunedol yn gallu gwneud cais am hyd at £250,000 o arian cyfatebol i'w helpu i brynu neu gymryd drosodd asedau cymunedol lleol sydd mewn perygl o gael eu colli, i'w rhedeg fel busnesau sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd y cylch ceisiadau cyntaf ar gyfer y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn agor ym mis Mehefin 2021.
- **Cronfa Economi Sylfaenol Cymru**
Mae gwasanaethau a chynhyrchion yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt ac sy'n ein cadw'n ddiogel, yn gadarn ac yn wâr. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth ac adwerthwyr

y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n werth £4.5m a fydd yn cefnogi cyfres o brosiectau arbrofol a fydd yn eu galluogi, ar y cyd â phartneriaid, i brofi'r ffordd orau o gefnogi'r economi sylfaenol a gweld pa ymyriadau gan y Llywodraeth sy'n gweithio orau.

- **Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

Cyllid ar gyfer ystod eang o brosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y Deyrnas Unedig. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol yr ydych yn ei werthfawrogi ac am ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae grantiau o hyd at £5m ar gael ar gyfer prosiectau cymwys.

- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - Cronfa Datblygu Asedau Cymunedol**

Cefnogi busnesau cymdeithasol i ddwyn asedau i berchnogaeth y gymuned drwy wneud un o'r pethau canlynol:

- prynu'r ased
- prynu ac adnewyddu'r ased
- adnewyddu ased presennol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn
- darparu cyfarpar mewn ased

Gall y math o ased amrywio o glybiau cymdeithasol/chwaraeon, neuaddau cymunedol, canolfannau cymunedol, tafarndai cymunedol ac ati. Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos sut y bydd y gweithgaredd a ariennir yn creu newid cadarnhaol o ran yr effaith gymdeithasol yn ogystal â newid cadarnhaol mewn cynhyrchu incwm. Bydd sefydliadau'n gallu gwneud cais am hyd at £150,000. Mae angen arian cyfatebol o 40% o leiaf. Mae 40% ohono yn grant a 60% yn ad-daladwy. Bydd faint y byddwch yn ei ad-dalu yn dibynnu ar faint y mae incwm y sefydliad yn cynyddu.

- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - Cronfa Twf Busnesau Cymdeithasol**

Cefnogi busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn ariannol i'w galluogi i dyfu a chreu cyfleoedd gwaith. Ariennir y gronfa hon yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru a chaiff ei hychwanegu at gyfres o fuddsoddiadau a weinyddir gan Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru.

Gall y gronfa ddarparu buddsoddiad o hyd at £150,000. Mae angen arian cyfatebol o 40% o leiaf. Mae'r cymorth a ddarperir yn gymysgedd o grant a chymorth ad-daladwy; y mwyaf y byddwch yn gorgyflawni wrth greu swyddi y lleiaf y mae angen ei ad-dalu.

Cyllid mewn da

Gellir defnyddio cyfraniadau mewn da fel cyfraniad o fewn ceisiadau'r gronfa grant. Cyfraniad anariannol yw cyfraniad mewn da. Mae nwyddau neu wasanaethau a roddir am ddim neu am lai na'r pris arferol yn golygu y ceir cyfraniad mewn da. Yn yr un modd, pan fydd person neu endid yn talu am wasanaethau ar ran y pwyllgor, mae'r taliad yn gyfraniad mewn da.

12.3 Atodiad 3 – Engreifftiau o Lythyrau Cefnogaeth

“Diolch yn fawr am y neges i Sain yn egluro am fenter gyffrous Ty’n Llan, ac ymddiheuriadau am yr oedi cyn ymateb. Mae Sain yn awyddus iawn i gefnogi’r fenter ac yn edrych ymlaen at weld y dafarn ar ei newydd wedd. Yn y gorffennol roedd sawl ymwelydd a’r stiwdio, a’r staff hefyd, yn mwynhau picio draw i gael chydig o luniaeth ac mae’n braf meddwl y bydd tafarn leol yn ardal Llandwrog eto.

Dymunwn pob llwyddiant i chi ac edrychwn ymlaen at gael ymweld!

Sain (Recordiau) Cyf
Llandwrog”

“Ymhellach i’ch gohebiaeth diweddar. Rwyf yn falch o ddatgan cefnogaeth Cyngor Gwynedd i ddymuniad cymuned Llandwrog i berchnogi Ty’n Llan a, thrwy hynny, gwasanaethu trigolion lleol a chreu gwaith ynghyd â gwarchod yr adeilad hanesyddol.

Dymunir bob llwyddiant i’r Fenter.

Cofion,
Economy & Community Department
Cyngor Gwynedd Council”

“Diolch am y neges.

Mae Adra (Tai) yn gefnogol iawn i brosiectau o’r fath sydd yn cyd-fynd a rhai o’r themâu yn ein Strategaeth Gymunedol - gan gynnwys Cyflogaeth a Sgiliau, Iechyd a Lles ag hefyd Diwylliant, Treftadaeth ac Iaith.

Da ni eisoes wedi cefnogi prosiectau Tafarn Y Fic yn Llithfaen, Tafarn yr Heliwr yn Nefyn a Tafarn Y Plu yn Llanystumdwy, ac wedi gweld sut maent wedi/wrthi’n buddio ein cwsmeriaid a’n cymunedau. Felly, byddwn yn hapus iawn i gefnogi prosiect Menter Ty’n Llan mewn unrhyw ffordd y gallwn.

Mae gan Adra grantiau o hyd at £1,000 ar gael trwy ein Cronfa Buddsoddi Gymunedol, i gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol gyda phrosiectau cymunedol. Felly os da chi’n meddwl y byddai grant yn gallu helpu elfen benodol o’r prosiect neu os gallwn fod o unrhyw gymorth pellach, yna peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi.

Uned Cymunedau a Phartneriaeth / Community and Partnership Unit
Adra Tai”

“Gallaf gadarnhau fy mod yn gefnogol iawn i’r syniad a’r bwriad o ddatblygu Tŷ’n Llan, credaf y byddai’n adnodd gwerthfawr iawn ar gyfer y gymuned. Mae mentrau fel hyn yn dod â chymuned ynghyd ac yn helpu i gynnal gwedd cymuned a chymdeithas.

Wrth ddatblygu adnodd i gynnal digwyddiadau o bob math byddai’n ychwanegiad gwych i’r ardal yma. Credaf y byddai’n fuddiol tu hwnt ac yn ddatblygiad y gall pobl o bob oed ei werthfawrogi.

Yn ogystal mae unigedd yn fater real i nifer yn ein cymunedau, mae mentrau cymunedol fel hyn yn helpu i ddenu pobl i ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau amrywiol ac felly byddai canolfan o'r math yma hefyd yn gallu cyfrannu at wella llês emosiynol unigolion.

Gall canolfan fel hyn wella ansawdd bywyd trigolion lleol a drwy ddarparu gweithgareddau o bob math yn lleol daw hyn â chyfleoedd newydd amrywiol i'r gymuned.

Dymunaf pob dymuniad da i'r fenter bwysig yma.

Diolch a Chofion

Cynghorydd Judith Humphreys"

“Fel busnes sydd yn berchen bythynnod hunan arlywio o safon, yn lleol rydym yn fwy na barod i gefnogi y fenter yn Tyn Llan.

Ar y funud, yn sgil tri bwthyn gwyliau yn cysgu hyd at 22 o westion yn ddyddiol/wythnosol, un or pethau cyntaf mae ein gwestion yn ofyn, ble maer dafarn leol neu lle allwch argymell am fwyd da, y gwir amdani, does nynlle!!, felly rydym yn argymell unai y Goat yn Bryncir, neu y Black Boy yn Gaernarfon!!

Mae rhain yn westion o safon, yn eu niferoedd yn ystod misoedd y gaeaf, yn ogystal ar haf wrth gwrs. Rydym yn fwy na bodlon i hyrwyddo Tyn Llan o fewn ein bythynnod. Pob lwc.”

“Nodyn o galonddid oedd clywed am benderfyniad trigolion Llandwrog i ffurfio cymdeithas i achub ac ail-agor tafarn Ty'n Llan. Heb os byddai menter o'r fath yn gyfraniad aruthrol i'r pentref yn ogystal ac i'r ardal yn gyffredinol.

Yn y gorffennol mae'r dafarn wedi bod yn ganolfan gymdeithasol ac yn enwog yn yr ardal gan bobl lleol ac ymwelwyr ond mae'n hanfodol ein bod nawr yn symud hefo'r oes.

Rwy'n llongyfarch trigolion Llandwrog am eu gweledigaeth a'u brwdfrydedd ac edrychaf ymlaen i weld y fenter yn cael ei chyflawni ar ei newydd wedd.

Dymuniadau gorau

Cynghorydd Eric M Jones"

“Fel busnes teuluol lleol, ers dros ddeng mlynedd, mae ein cwsmeriaid sydd yn aros yma ar faes carafanau a phebyll Cae Clyd, Pontllyfni, yn gofyn yn aml a rheolaidd am rhywle i fynd i gael brechwast, swper, panad, tec awe neu rhywle i ymlacio ar derfyn dydd.

Mi fyddai cael cyfleusterau fel y bwriedir eu cael yn Nhy'n Llan o fudd mawr i ni fel awgrymiad i bobl fynd am lymaid neu i wledda, a hynny ar stepan ein drws.

Braint yw cael rhoi pob cefnogaeth i'r fenter gan ddymuno pob llwyddiant i'r ymdrech”

“Braf oedd clywed y byddai tafarn Ty'n Llan, Llandwrog yn ail-agor er budd y gymuned a thrigolion yr ardal unwaith eto.

Rydym yn awyddus i gefnogi'r fenter hon oherwydd byddai cael tafarn fel man cyfarfod yn galon i'r gymuned a'r gymdeithas. Yn ogystal â hyn, mae gennym ni faes carafanau nid nepell o bentref Llandwrog a byddai tafarn, caffi yn ddelfrydol i fedru gyrru ymwelwyr yno i fwynhau pryd o fwyd a diod, a phrofi diwylliant Cymreig sy'n hynod o bwysig i hyrwyddo twristiaeth gogledd Cymru.

Wrth reswm, ni ellir dibynnu ar dwristiaeth dros fisoedd y gaeaf, felly mae'n hanfodol bod Ty'n Llan yn gallu cael ei ddefnyddio'n eang fel canolbwynt i'r gymuned a chynnig cyfleusterau ar gyfer cymdeithasau a mudiadau lleol drwy'r flwyddyn. Rydym yn cefnogi cais 'Cymdeithas Ty'n Llan, Llandwrog' i ail-agor fel canolfan cymdeithasol i'r gymuned a thwristiaid fel gellir sicrhau bwrlwm yn y pentref unwaith yn rhagor. Gyda phob dymuniad da a llwyddiant gyda'r fenter hon"

"In relation to the community purchase of the Tyn Llan Pub, we at Tai Coch Chatham are fully supportive of this venture. Many of our guests at the self catering cottages request that there is a pub / restaurant within walking distance and Tyn Llan is ideally suited for this purpose. It will be to the benefit of the local community and visitors alike that the Tyn Llan venture succeeds"

"I have been watching your progress closely on social media over the past few months and am so thrilled that Ty'n Llan is going to get the new lease of life it deserves.

As you may be aware, we have a bar onsite here at Dinlle Caravan Park, however we actively encourage our owners and holiday customers to get out and about in the local area and boost the local economy with their tourism spend whilst staying with us.

We would love to be able to spread the word to our customers – please keep us updated on possible opening dates.

Wishing you all the best for your opening and if we can be of any help, don't hesitate to contact us further."

"Fel trigolion o'r pentref sydd yn gosod bwthyn gwyliau hynan-arlwyol yn Llandwrog byddem yn aml yn cael ein gwsteion yn ymholi am dafarn a bwyty lleol. Byddai ail agor Ty'n Llan fel tafarn a bwyty felly yn sicr yn cael ei hysbysebu ganddom ni ac yn siwr o gael ei ddefnyddio gan ein ymwelwyr"

"Dyma nodyn byr ar ran Maes Carafanau Llyn y Gele, Pontllyfni i nodi ein cefnogaeth i'r fenter o ailagor Ty'n Llan.

Mae ein hymwelwyr yn aml yn chwilio am rhywle agos i fynd am bryd o fwyd, a byddai'n braf gallu eu cyfeirio i dafarn wledig gydag awyrgylch Gymraeg a Chymreig. Pan oedd Ty'n Llan ar agor yn y gorffennol roedd boblogaidd ymhlith ein carafanwyr, a sawl un wedi dweud eu bod yn gweld colli'r dafarn.

Yn yr un modd, rydym yn llwyr gefnogi'r fenter ar lefel bersonol. Byddai cynllun o'r fath yn bendant yn gaffaeliad mawr i'r ardal gyfan.

Pob lwc efo'r fenter."